Ymgynghori ar ein hasesiad o effaith dull Ofcom o ymdrin â hysbysiadau tryloywder

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 26 Tachwedd 2026
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 20 Lonawr 2027

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch I ofcom.org.uk.

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg 3
2. Cyflwyniad 5
3. Ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder 10
4. Cyfnod adrodd a chyflwyno 18
5. Asesiad o Effaith ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder 19
6. Cwestiwn yr Ymgynghoriad 25

Atodiad

A1. Materion y gall fod angen gwybodaeth amdanynt 26
A2. Asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r effaith ar y Gymraeg 30
A3. Gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a 2B 34
A4. Gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 2A 35
A5. Asesiad enghreifftiol o gost yr effaith ym mlwyddyn 1 36
A6. Tystiolaeth 41
A7. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 44
A8. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 47

1. Trosolwg

1.1 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar ein hasesiad o effaith dull cyffredinol Ofcom i bennu'r gofynion gwybodaeth ar gyfer pob set o adroddiadau tryloywder blynyddol fel rhan o'n dyletswydd i gyhoeddi hysbysiadau tryloywder i wasanaethau wedi'u categoreiddio (yn y ddogfen hon rydym yn galw'r rhain yn ein "dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder"). Mae ein hasesiad o'r effaith wedi ystyried costau a manteision ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder.

1.2 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'n hasesiad o'r effaith gan ein bod eisoes wedi ymgynghori ar ein dull cyffredinol o ymdrin ag adrodd ar dryloywder fel rhan o'n hymgynghoriad ar ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder.

Beth ydym ni'n ymgynghori yn ei gylch?

Rydym yn ymgynghori ar ein hasesiad o effaith debygol gweithredu ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder.

Pa effeithiau ydym wedi'u hasesu?

Rydym wedi asesu effaith ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder, sef sut byddwn yn cyflawni'r ddau brif amcan a nodir yn ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder: cyflawni trefn adrodd effeithiol ar dryloywder a fydd yn arwain at welliannau i wasanaethau, a grymuso defnyddwyr y DU gyda gwybodaeth i fyw bywydau mwy diogel ar-lein.

Beth yw ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder?

Pynciau craidd a thematig

Yn ein canllawiau, roeddem wedi datgan y byddem yn ystyried set o ofynion gwybodaeth '**craidd'** y byddai darparwyr yn adrodd arnynt mewn hysbysiadau olynol. Rydym wedi penderfynu y dylai'r gofynion gwybodaeth craidd hyn ganolbwyntio ar y systemau a'r prosesau diogelwch ar wasanaethau i reoli'r risgiau o niwed o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. Mae'r ddogfen hon yn egluro ein rhesymeg dros y pynciau a ddewiswyd:

- Tacsonomeg;
- Diogelu defnyddwyr sy'n blant;
- Cymedroli cynnwys;
- Adrodd a chwyno;
- Systemau argymell cynnwys;
- Camwybodaeth a thwyllwybodaeth;
- Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau;
- Defnyddwyr sy'n blant a fu farw.

Mae ein canllawiau hefyd yn datgan y gallwn ofyn am wybodaeth am bwnc '**thematig'** y byddwn yn gofyn amdano'n ad-hoc, gan adlewyrchu ffocws rheoleiddio Ofcom mewn blwyddyn benodol. Rydym wedi penderfynu y bydd y set gyntaf o hysbysiadau tryloywder yn mynnu bod gwasanaethau perthnasol yn cyhoeddi gwybodaeth am grŵmio, oherwydd gallai tryloywder yn y maes hwn wella diogelwch.

Sut rydym yn teilwra ceisiadau am wybodaeth i wasanaethau

Rydym hefyd yn nodi yn y ddogfen hon sut byddwn yn ystyried y chwe ffactor a nodir ym mharagraff 37 o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

Y camau nesaf

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 26 Tachwedd 2026 a 20 Ionawr 2027, a dylid cyflwyno ymatebion erbyn 20 Ionawr 2027 i OS-Transparency@ofcom.org.uk.

1.2 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rydym yn bwriadu cynnal gweminar i randdeiliaid. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cydredeg â'n proses ar wahân sy'n gofyn am sylwadau gan ddarparwyr gwasanaeth wedi'u categoreiddio ar yr hysbysiadau tryloywder drafft ar gyfer y gwasanaethau maent yn eu darparu. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r sylwadau a ddaw i law cyn cyhoeddi ein datganiad a chyhoeddi hysbysiadau tryloywder terfynol.

2. Cyflwyniad

Cefndir

2.1 Roedd Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y "Ddeddf") yn cyflwyno gofyniad adrodd ar dryloywder ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio. O dan y drefn hon, mae gan Ofcom bwerau i fynnu bod darparwyr gwasanaeth wedi'u categoreiddio yn cyhoeddi gwybodaeth benodol am eu gwasanaethau mewn adroddiadau tryloywder cyhoeddus. Mae Ofcom yn bwriadu i'r wybodaeth a gyhoeddir drwy'r drefn ddarparu trefn adrodd effeithiol ar dryloywder a fydd yn arwain at welliannau i wasanaethau, ac yn grymuso defnyddwyr yn y DU gyda gwybodaeth i fyw bywydau mwy diogel ar-lein.

2.2 Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â'r Ddeddf sy'n datgan bod y dyletswyddau a osodir ar ddarparwyr yn ceisio sicrhau, ymysg pethau eraill, bod gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf yn ddiogel drwy ddyluniad; ac yn cael eu dylunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau: bod safon uwch o ddiogelwch yn cael ei darparu i blant nag i oedolion, bod hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd yn cael eu diogelu, a bod tryloywder ac atebolrwydd yn cael eu darparu mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny.

2.3 Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Ofcom ei ddatganiad ar Adroddiadau Tryloywder Diogelwch Ar-lein.[1] Roedd y datganiad yn cynnwys canllawiau Ofcom ar weithredu'r drefn adrodd ar dryloywder (y "Canllawiau Adroddiadau Tryloywder"). Roedd yn egluro'r broses ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau tryloywder, sut bydd Ofcom yn ymgysylltu â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill drwy gydol y cylch adrodd, a sut bydd gwybodaeth o adroddiadau tryloywder darparwyr yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiadau tryloywder Ofcom ei hun.

2.4 Mae'r Canllawiau Adroddiadau Tryloywder hefyd yn nodi sut byddwn yn penderfynu pa wybodaeth y byddai'n rhaid i ddarparwyr ei chynnwys yn eu hadroddiadau tryloywder. Bwriad y dull gweithredu yw cefnogi trefn effeithiol i adrodd ar dryloywder sy'n gwella gwasanaethau ac yn grymuso defnyddwyr yn y DU gyda gwybodaeth i fyw bywydau mwy diogel ar-lein a sicrhau bod yr wybodaeth rydym yn mynnu bod darparwyr yn adrodd arni yn berthnasol, yn briodol ac yn gymesur, ac wedi'i theilwra i adlewyrchu sut mae gwasanaethau unigol yn cael eu dylunio, eu defnyddio a'u gweithredu.

2.5 Roedd y Canllawiau Adroddiadau Tryloywder yn nodi y gallai fod angen rhywfaint o wybodaeth yn gyson dros amser fel gofynion gwybodaeth craidd, tra gallai gofynion gwybodaeth thematig ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth. Roeddent yn egluro y byddem yn ystyried cyfleoedd i fynnu'r un wybodaeth ar draws nifer o wasanaethau, pan fyddai hyn yn galluogi cymariaethau ystyrlon.

2.6 Ers cyhoeddi'r Canllawiau Adroddiadau Tryloywder, mae Ofcom wedi datblygu sut bydd yn defnyddio ei ddull gweithredu ar gyfer adroddiadau tryloywder. Mae hyn yn cynnwys adnabod gofynion gwybodaeth craidd a thematig, ystyried sut dylid dyrannu'r gofynion hynny ar draws gwahanol wasanaethau, ac asesu i ba raddau y byddent yn cefnogi amcanion y drefn adrodd ar dryloywder.

[1] Ofcom, 2025, Datganiad: Adroddiadau Tryloywder Diogelwch Ar-lein.

Cefndir Cyfreithiol

Dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

2.7 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu yn y DU. Mae gennym gyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer y sectorau telegyfathrebiadau, post a darlledu, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein. Gan ein bod yn awdurdod cyhoeddus, mae'n rhaid i ni weithredu'n gyfreithlon, yn rhesymegol ac yn deg.

2.8 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") yn rhoi dyletswyddau arnom y mae'n rhaid i ni eu cyflawni wrth weithredu ein swyddogaethau rheoleiddio. Ein prif ddyletswydd wrth gyflawni ein swyddogaethau yw:

- hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a
- hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.[2]

2.9 Wrth gyflawni'r brif ddyletswydd honno, rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau. Ar ben hynny, wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n ofynnol i Ofcom, ymysg pethau eraill, sicrhau bod dinasyddion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a achosir gan gynnwys ar wasanaethau wedi'u rheoleiddio, drwy ddefnyddio systemau a phrosesau priodol o'r fath sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o niwed o'r fath.

2.10 Rhaid i Ofcom ystyried y canlynol, ymysg pethau eraill, wrth gyflawni ei brif ddyletswydd:

- natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau ym marn Ofcom yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt; a
- barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

2.11 Mae Deddf 2003 yn mynnu[3] ei bod yn rhaid i Ofcom ystyried nifer o ffactorau, fel sy'n ymddangos yn berthnasol i ni yn yr amgylchiadau, ac o ganlyniad rydym wedi ystyried y canlynol yn ofalus mewn perthynas â datblygu ein cynigion:

- y risg o niwed i ddinasyddion a gyflwynir gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio;
- yr angen iddi fod yn glir i ddarparwyr gwasanaeth wedi'u rheoleiddio sut gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau a bennir ym Mhennod 2, 3, 4 neu 5 o Ran 3, Pennod 1, 3 neu 4 o Ran 4, neu Ran 5 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023;
- yr angen am lefel uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion;
- yr angen i arfer ein swyddogaethau er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu rheoleiddio yn gallu cydymffurfio â dyletswyddau o'r fath drwy gymryd mesurau, neu ddefnyddio mesurau, systemau neu brosesau, sydd (pan fo hynny'n berthnasol) yn gymesur â'r canlynol—

i) maint neu gapasiti'r darparwr o dan sylw, a
ii) lefel y risg o niwed a berir gan y gwasanaeth dan sylw, a difrifoldeb y niwed posibl;

[2] Adran 3(1) o Ddeddf 2003.
[3] Adran 3(4A) o Ddeddf 2003.

- pa mor ddymunol yw hybu bod darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu rheoleiddio yn defnyddio technolegau sydd wedi'u dylunio i leihau'r risg o niwed i ddinasyddion a achosir gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio; a
- i ba raddau mae darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu rheoleiddio yn dangos, mewn ffordd dryloyw ac atebol, eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau a nodir ym Mhennod 2, 3, 4 neu 5 o Ran 3, Pennod 1, 3 neu 4 o Ran 4, neu Ran 5 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.

Dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â hysbysiadau tryloywder

2.12 Mae Adran 77 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi hysbysiad tryloywder blynyddol i bob darparwr gwasanaeth wedi'i gategoreiddio. Rhaid i'r hysbysiad tryloywder nodi'r wybodaeth sydd i'w chynhyrchu yn yr adroddiad tryloywder, fformat yr adroddiad tryloywder, yn ogystal â'r dyddiad y mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad i Ofcom a'r modd a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad.

2.13 Mae gan Ofcom ddyletswydd hefyd o dan adran 159 o'r Ddeddf i gyhoeddi ei adroddiadau tryloywder ei hun. Mae gwybodaeth a geir drwy hysbysiadau tryloywder yn helpu Ofcom i gyflawni'r swyddogaeth honno drwy ein galluogi i gyhoeddi dadansoddiad a gwybodaeth gyfunol am risgiau diogelwch ar-lein a'r mesurau mae darparwyr yn eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.

2.14 Wrth benderfynu ar yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn adroddiad tryloywder, dim ond gwybodaeth am y materion a nodir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 8 i'r Ddeddf (fel y bo'n berthnasol) y caiff Ofcom ofyn amdani a rhaid iddo ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff 37 o Atodlen 8 wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys mewn perthynas â gwasanaeth penodol, pa ffactorau sy'n cynnwys:

- y math o wasanaeth ydyw;
- swyddogaethau'r gwasanaeth;
- nifer defnyddwyr y gwasanaeth;
- capasiti'r darparwr;
- y dyletswyddau a nodir ym Mhennod 2 neu 3 o Ran 3, neu Benodau 1 i 4 o Ran 4 sy'n berthnasol mewn perthynas â'r gwasanaeth[4];
- cyfran defnyddwyr y gwasanaeth sy'n blant.

Pam rydym wedi cynnal asesiad effaith

2.15 O dan adran 7 o'r Ddeddf[5], rhaid i Ofcom gynnal a chyhoeddi asesiad effaith mewn achosion lle rydym yn cynnig gwneud rhywbeth at ddibenion cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â hynny; a lle mae'n ymddangos i Ofcom bod y cynigion yn "bwysig". Mae cynnig yn bwysig os yw'n golygu newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom neu, os

[4] Mae'r dyletswyddau perthnasol yn cael eu nodi ym Mhenodau 2 a 3 Rhan 3 a Phenodau 1 i 4 Rhan 4 o'r Ddeddf.
[5] Fel y'i diwygiwyd gan adran 93 o'r Ddeddf.

yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar bobl sy'n cynnal busnesau yn y marchnadoedd lle mae gan Ofcom swyddogaethau, neu ar y cyhoedd yn gyffredinol.

2.16 Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi. Mae ein Canllawiau ar Asesu Effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.[6]

2.17 Fel y nodir yn adran 7(5) o Ddeddf 2003, mae gan Ofcom ddisgresiwn o ran sylwedd a ffurf asesiad effaith, a bydd hyn yn dibynnu ar y cynigion a wneir. Fodd bynnag, rhaid i asesiadau effaith sy'n ymwneud â chynigion at ddibenion cyflawni swyddogaethau diogelwch ar-lein Ofcom o dan y Ddeddf gynnwys asesiad o effaith debygol gweithredu'r cynnig ar fusnesau bach a microfusnesau.[7]

2.18 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein hasesiad o effaith ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder gan ein bod o'r farn bod hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau ac ar y cyhoedd yn gyffredinol. Mae ein hasesiad effaith yn asesu ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder a fydd yn cael eu defnyddio bob blwyddyn. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys asesiad enghreifftiol o'r costau uniongyrchol tebygol y gallai darparwyr gwasanaeth eu hwynebu o ganlyniad i gydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth yn y flwyddyn gyntaf (gweler Atodiad 5), rydym yn asesu effaith ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn gyffredinol**,** a all arwain at hysbysiadau sydd â mwy neu lai o gwestiynau mewn unrhyw flwyddyn benodol. Os byddwn yn diwygio ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn y dyfodol, byddwn yn ystyried a ddylem gynnal asesiad effaith pellach mewn perthynas â newid o'r fath.

2.19 Mae ein hasesiad effaith yn adeiladu ar adborth ac ystyriaethau rhanddeiliaid a wnaed mewn asesiadau blaenorol o'r effaith, gan gynnwys ar gyfer ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder.

Dyletswydd twf

2.20 Wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried pa mor ddymunol ydy hybu twf economaidd, gan gynnwys drwy sicrhau bod y camau rheoleiddio rydym yn eu cymryd yn angenrheidiol ac yn gymesur.[8] Y 'ddyletswydd twf'' ydy enw'r ddyletswydd hon, ac mae wedi bod yn berthnasol i'n swyddogaethau diogelwch ar-lein ers mis Ebrill 2026.

2.21 Mae'n rhaid i ni ystyried canllawiau statudol Llywodraeth y DU ar y ddyletswydd twf.[9] Mae'r canllawiau hynny'n egluro bod angen ystyried y ddyletswydd ochr yn ochr â'n dyletswyddau statudol eraill, ac nad cyflawni na mynd ar drywydd twf economaidd ar draul y mesurau diogelu angenrheidiol yw ei phwrpas.[10] Ymysg pethau eraill, mae hefyd yn nodi sbardunau penodol ar gyfer twf economaidd, gan gynnwys arloesi, buddsoddi a chystadleuaeth.

---

[6] Edrychwch ar ddogfen Ofcom, 2023. Canllawiau Asesu Effaith.
[7] Adrannau 7(4A) a 7(4B) o Ddeddf 2003, fel y'u diwygiwyd gan adran 93(4) o'r Ddeddf.
[8] Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.
[9] Adran 110(3) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.
[10] Yr Adran Busnes a Masnach, 2024. Dyletswydd Twf: Canllawiau Statudol.

2.22 Rydym wedi ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd yn yr ymgynghoriad hwn drwy ystyried effeithiau economaidd ehangach ein cynigion, gan gynnwys ar ddarparwyr gwasanaeth wedi'u categoreiddio sy'n gorfod cydymffurfio â'r hysbysiadau tryloywder.

Datganiad Blaenoriaethau Strategol

2.23 O dan adran 92 o'r Ddeddf, mae gan Ofcom ddyletswydd i ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU ar gyfer diogelwch ar-lein wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddio ar faterion diogelwch ar-lein.[11] Rydym wedi ystyried y Datganiad wrth gynnal yr asesiad effaith hwn, gan gynnwys blaenoriaeth y llywodraeth i "dryloywder ac atebolrwydd llwyfannau ar-lein", a'r angen i ysgogi mwy o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau ac i ehangu'r sylfaen dystiolaeth i ddarparu profiadau mwy diogel i ddefnyddwyr.

Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

2.24 Rydym eisoes wedi ymgynghori ar y fframwaith cyffredinol i adrodd ar dryloywder fel y nodir yn ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder (gweler paragraffau 2.4-2.5). Mae'r ymgynghoriad hwn yn asesu effaith y dull gweithredu rydym yn bwriadu ei ddefnyddio, o fewn y fframwaith hwnnw, er mwyn penderfynu:

- y gofynion gwybodaeth craidd a thematig y byddwn yn eu gofyn i wasanaethau wedi'u categoreiddio o un flwyddyn i'r llall; a
- sut bydd y gofynion gwybodaeth hyn yn cael eu dyrannu i wasanaethau penodol.

2.25 Wrth asesu effaith ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder, rydym wedi canolbwyntio'n benodol, lle bo'n bosibl, ar gostau, ar fanteision ac ar risgiau ein dull gweithredu mewn perthynas â'r cyhoedd a busnesau yn y DU. Rydym hefyd wedi ystyried y 'ddyletswydd twf' (gweler uchod), ac effaith ein cynigion ar hawliau dynol, yn enwedig yr hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i breifatrwydd, yn ogystal â'r effaith ar grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae ein Hasesiadau Hawliau Dynol a'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad A2.

2.26 Yn unol ag adran 7(4) o Ddeddf 2003, rydym hefyd wedi ystyried sut, ym marn Ofcom, mae'r cynigion yn sicrhau neu'n datblygu perfformiad dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o Ddeddf 2003. Rydym o'r farn bod ein dull gweithredu yn datblygu'r dyletswyddau hynny drwy wella tryloywder ynghylch risgiau diogelwch ar-lein a'r systemau a'r prosesau mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r risgiau hynny, gan gefnogi rheoleiddio effeithiol a mwy o atebolrwydd i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

[11] DSIT, 2025. Datganiad Blaenoriaethau Strategol Terfynol ar gyfer Diogelwch Ar-lein.

3. Ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder

3.1 Mae ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder yn egluro bod yn rhaid i'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi mewn adroddiadau tryloywder fod yn berthnasol, yn briodol ac yn gymesur yng nghyd-destun ein hamcanion polisi, sy'n seiliedig ar y fframwaith statudol. Ein prif randdeiliaid yw defnyddwyr a hysbysebwyr, sydd, yn ein barn ni, yn debygol o elwa o'n hamcanion i ddarparu trefn effeithiol i adrodd ar dryloywder a fydd yn arwain at welliannau i wasanaethau, ac yn grymuso defnyddwyr yn y DU gyda gwybodaeth i fyw bywydau mwy diogel ar-lein.

3.2 Mae'r adran hon yn nodi ac yn egluro ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder, gan gynnwys sut byddwn yn ei ddefnyddio i bennu'r hysbysiadau tryloywder ar gyfer darparwyr (gan gynnwys y gofynion gwybodaeth 'craidd' rydym yn eu gofyn o un flwyddyn i'r llall a'r gofynion gwybodaeth 'thematig' rydym yn eu gofyn ar sail ad-hoc), a sut rydym wedi ystyried y ffactorau sydd wedi'u nodi yn ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder i sicrhau bod gofynion gwybodaeth yn gymesur, yn berthnasol ac yn briodol i bob gwasanaeth.

Ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder

3.3 Rydym yn teilwra hysbysiadau tryloywder ar gyfer pob gwasanaeth wedi'i gategoreiddio drwy nodi'r gofynion gwybodaeth craidd a thematig sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw gan ystyried y materion a nodir yn Rhan 1 a Rhan 2 o Atodlen 8 i'r Ddeddf (fel sy'n berthnasol) a'r chwe ffactor a nodir ym mharagraff 37 o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

3.4 Mae adroddiadau tryloywder o dan y Ddeddf yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o niwed ar-lein a'r mesurau y gall darparwyr eu defnyddio i fynd i'r afael â nhw. Rydym yn canolbwyntio ein gofynion gwybodaeth craidd ar set o systemau a phrosesau trawsbynciol sy'n arbennig o bwysig i ddeall sut mae darparwyr yn adnabod, yn rheoli ac yn lliniaru risgiau diogelwch ar-lein ar draws ystod eang o niwed. Mae hyn yn ein galluogi i gael gwybodaeth ystyrlon am sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â gwahanol fathau o niwed drwy systemau a phrosesau tebyg, yn hytrach na gofyn am wybodaeth fanwl am bob niwed a mesur cyfatebol.

3.5 Rydym o'r farn bod y dull hwn yn adlewyrchu sut mae darparwyr yn rheoli niwed yn ymarferol, ac mae'n sail fwy systemig i adrodd ar dryloywder i gefnogi cysondeb a chymaroldeb ar draws gwasanaethau. Rydym o'r farn y bydd yn darparu gwybodaeth ystyrlon am sut yr eir i'r afael â niwed penodol sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr, i hysbysebwyr ac i randdeiliaid eraill. O'r herwydd, gall yr un wybodaeth roi cipolwg ystyrlon i amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â gwahanol ddiddordebau a blaenoriaethau ar draws sectorau gwasanaethau a niwed, gan helpu i gefnogi'r ddau amcan polisi rydym yn eu dilyn.

3.6 Ochr yn ochr â'r gofynion craidd hyn, mae adroddiadau thematig yn caniatáu i ni archwilio mater niwed neu ddiogelwch penodol sy'n flaenoriaeth yn fanylach lle ceir achos cryf dros fwy o dryloywder. Er enghraifft, gall tryloywder dargedu'r cymhellion isel i adrodd ar feysydd sy'n anoddach eu deall, i ganolbwyntio ar risg uchel o niwed uniongyrchol neu ddifrifol i grwpiau arbennig o agored i niwed fel plant, ac i wella dealltwriaeth neu i arwain at welliannau diogelwch. Mae hyn yn ategu'r ehangder a ddarperir gan ofynion gwybodaeth craidd gyda mwy o fanylion o ran ble gallai tryloywder fod â gwerth penodol.

3.7 Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau bod cwestiynau i wasanaethau yn berthnasol ac yn gymesur, drwy broses gyson a gwrthrychol: dylai gwasanaethau sydd â nodweddion tebyg fod yn rhwym wrth ofynion tebyg, gan gyfrif hefyd am wahaniaethau mewn nodweddion ac amgylchiadau sy'n benodol i wasanaeth. Gyda'i gilydd, bwriad y dull gweithredu hwn yw canolbwyntio adroddiadau tryloywder lle gallant ddarparu'r gwerth mwyaf, gan osgoi gofynion gwybodaeth diangen neu anghymesur.

3.8 Wrth ddatblygu ein dull gweithredu cyffredinol, ac i fynd i'r afael â bylchau perthnasol mewn gwybodaeth, rydym hefyd wedi ystyried yr wybodaeth mae darparwyr gwasanaeth wedi'u categoreiddio eisoes yn ei darparu i'r cyhoedd, gan gynnwys drwy adroddiadau tryloywder presennol, a thystiolaeth o drefniadau tryloywder eraill.[12] Roedd hyn yn caniatáu i ni ystyried pethau fel pa fetrigau gall gwasanaethau eu casglu, gan osgoi cwestiynau sydd eisoes ar gael am eu gwasanaeth(au) yn y DU, a deall dull cyffredinol darparwyr o ymdrin ag adrodd ar dryloywder.

Defnyddio ein dull polisi i bennu'r gofynion gwybodaeth

Gofynion gwybodaeth craidd

3.9 Dyma'r gofynion gwybodaeth craidd rydym yn cynnig eu defnyddio yn ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder:

- Tacsonomeg: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â sut mae darparwyr yn diffinio ac yn categoreiddio gwahanol fathau o gynnwys niweidiol, gan gynnwys sut mae'r rhain yn ymwneud â chategorïau niwed a throseddau o dan y Ddeddf.
- Diogelu defnyddwyr sy'n blant: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â'r mesurau mae darparwyr yn eu defnyddio i adnabod defnyddwyr sy'n blant a'u hamddiffyn rhag amrywiaeth o niwed, gan gynnwys drwy sicrwydd oedran a mesurau eraill sydd wedi'u dylunio i ddarparu profiadau sy'n briodol i oedran.
- Cymedroli cynnwys: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â'r systemau a'r prosesau mae darparwyr yn eu defnyddio i adolygu, i asesu ac i gymryd camau mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant.
- Adrodd a chwyno: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â'r mecanweithiau sydd ar gael i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys a allai fod yn niweidiol, gwneud cwynion a, lle bo hynny'n berthnasol, apelio yn erbyn penderfyniadau.
- Systemau argymell cynnwys: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â sut mae systemau argymell cynnwys yn gweithio a sut mae darparwyr yn rheoli risgiau cysylltiedig, gan gynnwys y rheini sy'n deillio o ledaenu cynnwys yn eang a'r niwed cronnus a allai ddeillio o argymhellion wedi'u personoleiddio.
- Camwybodaeth a thwyllwybodaeth: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â dulliau darparwyr o fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth, gan gynnwys polisïau a mesurau perthnasol.
- Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â'r offer, yr adnoddau a'r ymyriadau mae darparwyr yn eu cynnig i helpu defnyddwyr i ddeall ac i lywio drwy'r cynnwys a'r risgiau maent yn dod ar eu traws ar-lein.

[12] Mae Atodiad 6 yn cynnwys rhagor o fanylion am adroddiadau tryloywder presennol a threfniadau tryloywder eraill sy'n cael eu hystyried.

- Defnyddwyr sy'n blant a fu farw: Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â pholisïau a phrosesau darparwyr ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â defnyddwyr sy'n blant a fu farw, gan gynnwys sut mae ceisiadau a chwynion yn cael eu trin.

3.10 Wrth ddatblygu'r gofynion gwybodaeth craidd hyn, gwnaethom ystyried y materion yn Rhan 1 a Rhan 2 o Atodlen 8 i'r Ddeddf (fel y bônt yn berthnasol) a nodi'r pynciau sy'n berthnasol i'r materion hynny a fyddai'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau perfformiad diogelwch dros amser, yn arwain at welliannau gan ddarparwyr ac yn grymuso defnyddwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

3.11 Ar ben hynny, rydym o'r farn bod y pynciau hyn yn cyd-fynd yn agos â dyletswyddau presennol y darparwyr o dan y Ddeddf, gan gefnogi cydlyniant rheoleiddiol. Mae dyletswyddau fel y Dyletswyddau Diogelwch Cynnwys Anghyfreithlon, Dyletswyddau Diogelwch Plant, dyletswyddau Asesu Risg a dyletswyddau adrodd a chwyno, i gyd yn mynnu bod gan ddarparwyr systemau a phrosesau ar waith sy'n gweithio i fynd i'r afael ag amrywiaeth o risgiau diogelwch ar-lein. Mae ein gofynion gwybodaeth craidd yn canolbwyntio ar lawer o'r systemau a'r prosesau trawsbynciol hyn.

3.12 Dylai'r aliniad hwn helpu i leihau'r baich ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adrodd ar dryloywder yn flynyddol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau presennol a'u rhwymedigaethau rheoleiddio o dan y Ddeddf, byddem yn disgwyl bod darparwyr eisoes yn casglu gwybodaeth ac yn monitro perfformiad mewn perthynas â sut mae systemau a phrosesau perthnasol yn gweithredu ac yn perfformio. Lle gellir defnyddio'r wybodaeth hon hefyd i ymateb i hysbysiadau tryloywder, dylai hyn leihau'r graddau y mae angen i ddarparwyr gasglu neu gynhyrchu gwybodaeth newydd yn benodol ar gyfer adrodd ar dryloywder.

3.13 Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â swyddogaeth Ofcom ei hun i sicrhau, yn benodol, bod dinasyddion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed sy'n cael ei achosi gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, drwy sicrhau bod darparwyr yn defnyddio systemau a phrosesau priodol sydd wedi'u dylunio i leihau'r risg o niwed.[13]

3.14 Yn unol ag adran 7(4) o Ddeddf 2003, mae Ofcom wedi ystyried sut mae'r cynigion hyn yn sicrhau neu'n hyrwyddo'r gwaith o gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol. Rydym o'r farn bod y dull arfaethedig o ymdrin ag adrodd ar dryloywder yn hyrwyddo'r dyletswyddau hynny drwy gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am risgiau diogelwch ar-lein a systemau a phrosesau darparwyr ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Mae mwy o dryloywder yn cefnogi rheoleiddio effeithiol, yn hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â risgiau diogelwch ar-lein, ac yn cyfrannu at amgylchedd ar-lein mwy diogel, yn enwedig i blant ac i ddefnyddwyr eraill a allai fod yn agored i niwed.

3.15 Mewn ymateb i'n hymgynghoriad ar ganllawiau tryloywder, cawsom adborth ar bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. O ganlyniad, fe wnaethom gynnal trafodaethau bwrdd crwn gydag arbenigwyr i ofyn am adborth ar ein dull polisi a nodi'r mathau o wybodaeth y dylem geisio eu cynhyrchu. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau cymdeithas sifil,[14] arbenigwyr pwnc a phartïon eraill sydd â diddordeb. Roedd eu safbwyntiau ar sut mae adroddiadau tryloywder gwirfoddol presennol yn cael eu

[13] Adran 3(2)(g) o Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd gan adran 91 o'r Ddeddf).

[14] Dyma oedd y sefydliadau cymdeithas sifil: 5Rights Foundation; Antisemitism Policy Trust; Canadian Centre for Child Protection; Christchurch Call Foundation; Glitch; Human Digital @ MC Saatchi World Services; Institute for Strategic Dialogue; Internet Matters; Internet Watch Foundation; Lucy Faithfull Foundation; Marie Collins Foundation; NAPAC (National Association for People Abused in Childhood); NSPCC; Online Safety Act Network; Refuge; SWGfL; Tech Against Terrorism; Thorn; Which?

defnyddio, beth sy'n gwneud gwybodaeth yn ddefnyddiol yn ymarferol a'r math o wybodaeth a fyddai'n cefnogi dewisiadau mwy diogel a gwybodus orau wedi helpu i siapio'r gofynion gwybodaeth roeddem wedi'u datblygu. Fe wnaethom hefyd ymgynghori ag arbenigwyr Ofcom i gasglu mewnbwn ynghylch pa wybodaeth fyddai'n werthfawr ym marn y rhanddeiliaid amrywiol maent yn ymgysylltu â nhw.

3.16 Bwriad y pynciau yn ein hysbysiadau tryloywder yw darparu gwybodaeth am sut mae darparwyr yn adnabod, yn rheoli ac yn ymateb i wahanol gategorïau o niwed anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant. Bydd adrodd ar draws niwed yn rhoi mwy o dryloywder ynghylch sut mae dulliau gweithredu darparwyr yn amrywio rhwng meysydd niwed ac yn caniatáu adnabod newidiadau yn eu systemau, eu prosesau a'u mesurau diogelwch dros amser.

3.17 Bydd gwybodaeth feintiol ar lefel niwed yn rhoi mwy o dryloywder am gyffredinrwydd ac effaith bosibl gwahanol niwed ac ymatebion darparwyr iddynt, gan gynnwys faint o gynnwys niweidiol a ganfuwyd, yr adroddiadau a gafwyd a'r camau a gymerwyd ar draws gwahanol feysydd niwed. Bydd adrodd rheolaidd yn cefnogi'r gwaith o fonitro tueddiadau mewn meysydd niwed penodol ac yn galluogi cymariaethau ar draws niwed, gwasanaethau a chyfnodau adrodd. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach o ba mor gyffredin yw gwahanol fathau o niwed ar draws gwasanaethau ac yn helpu i adnabod patrymau o ran sut mae niwed yn dod i'r amlwg ar draws gwasanaethau a meysydd niwed.

Gofynion gwybodaeth thematig

3.18 Yn ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder, fe wnaethom nodi efallai fod gennym set o ofynion gwybodaeth 'thematig' rydym yn gofyn amdanynt yn ad-hoc, sy'n canolbwyntio ar feysydd mae Ofcom wedi'u nodi ar sail ei ffocws rheoleiddio bob blwyddyn. Bydd y gofynion thematig hyn yn galluogi Ofcom i gymharu gwahanol ymdrechion y diwydiant ar bynciau penodol, boed hynny'n faes risg â blaenoriaeth neu'n fath penodol o fesur diogelwch. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu teilwra fel sy'n briodol i'r gwasanaethau unigol a gallant fod yn wahanol o ran cwmpas a graddfa.

3.19 Rydym yn defnyddio pedwar maen prawf arweiniol i bennu ffocws thematig pob cylch adrodd. Bwriad y meini prawf hyn yw cefnogi amcanion y fframwaith statudol ar adrodd am dryloywder a dyletswyddau diogelwch ar-lein Ofcom. Yn benodol, maent wedi'u cynllunio i helpu i sicrhau bod adroddiadau tryloywder yn canolbwyntio ar feysydd lle mae adrodd yn fwyaf tebygol o wella dealltwriaeth o risgiau diogelwch ar-lein, cefnogi atebolrwydd, a chyfrannu at ganlyniadau diogelwch gwell i ddefnyddwyr. Bydd y meini prawf hyn yn cyfrannu at sut rydym yn blaenoriaethu un mater ymysg yr ystod o faterion posibl o dan Atodlen 8.

3.20 Yn gyntaf, dylai'r pwnc fynd i'r afael â risg o niwed sy'n ddifrifol a/neu'n eang, fel bod adroddiadau tryloywder yn canolbwyntio ar feysydd a allai gael yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr. Yn ail, dylai gyd-fynd â blaenoriaethau rheoleiddio Ofcom ar gyfer y cyfnod adrodd perthnasol, gan ystyried dyletswyddau a blaenoriaethau statudol Ofcom o dan y drefn diogelwch ar-lein. Yn drydydd, dylai fod yn faes lle mae digon o ddatblygu polisi a thystiolaeth i nodi dangosyddion ystyrlon o berfformiad darparwyr a dyluniad gwasanaethau, gan ganiatáu i adroddiadau tryloywder gynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy a llawn gwybodaeth. Yn olaf, dylai fod yn faes lle mae rhagor o dryloywder cyhoeddus yn debygol iawn o wella dealltwriaeth, atebolrwydd neu gymhellion i ddarparwyr wella eu mesurau diogelwch, sy'n cyd-fynd ag amcanion y fframwaith tryloywder.

3.21 Am y flwyddyn gyntaf o adrodd ar dryloywder, rydym wedi defnyddio'r meini prawf hyn ac wedi dewis grŵmio ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol (CSEA) fel ein ffocws thematig. Rydym o'r farn bod grŵmio ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol ymysg y niwed mwyaf difrifol ar-lein sy'n effeithio ar blant ac mae'n faes sy'n peri pryder sylweddol i'r cyhoedd, i randdeiliaid ac i reoleiddwyr.[15] Mae'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol Ofcom, ac mae'n faes lle rydym wedi datblygu sylfaen dystiolaeth sylweddol a dealltwriaeth o'r mesurau y gall darparwyr gwasanaeth eu cymryd i liniaru risgiau.

3.22 Mae pa mor gyffredin a difrifol yw grŵmio ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, a diddordeb cryf y cyhoedd mewn amddiffyn plant rhag y niwed hwn, hefyd yn golygu bod gwybodaeth yn y maes hwn yn debygol o fod o ddiddordeb arbennig i rieni a gofalwyr, cymdeithas sifil, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill. Mae tystiolaeth ddiweddar yn tynnu sylw at raddfa'r niwed hwn. Ym mis Hydref 2026, dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y bu cynnydd o 6% yn nifer y troseddau grŵmio rhywiol a ddaeth i sylw'r heddlu rhwng 2025 a 2026, i fyny o 7,172 o droseddau i 7,607.[16] Rydym o'r farn bod hyn yn cynyddu'r potensial i'r wybodaeth a gynhyrchir drwy adroddiadau tryloywder gael ei lledaenu ac y gweithredir arni. Gall hyn gefnogi'r ddau lwybr rydym yn disgwyl i dryloywder eu defnyddio i sbarduno newid: dal gwasanaethau i gyfrif am eu mesurau diogelwch a'u cymell i wella diogelwch, a grymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu bywydau ar-lein.

Teilwra gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau

3.23 Wrth deilwra'r gofynion gwybodaeth ar gyfer pob gwasanaeth mae'n rhaid i ni ystyried y chwe ffactor a nodir ym mharagraff 37 o Atodlen 8 i'r Ddeddf. Mae'r adran hon yn nodi sut byddwn yn gwneud hyn ac, felly, sut byddwn yn penderfynu ar y gofynion gwybodaeth ar gyfer pob gwasanaeth.

3.24 Yn Atodlen 8 i'r Ddeddf mae'r gofynion gwybodaeth wedi'u rhannu rhwng materion y gallai fod angen gwybodaeth amdanynt mewn perthynas â rhan defnyddiwr i ddefnyddiwr gwasanaethau a pheiriannau chwilio. Wrth ddatblygu'r gronfa gwestiynau ar gyfer unrhyw gylch adrodd penodol, byddwn yn datblygu gofynion gwybodaeth ar gyfer y ddau fath o wasanaeth, gyda'r bwriad mai dim ond gofynion gwybodaeth am gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a gaiff gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr, a dim ond gofynion gwybodaeth am gynnwys chwilio a mesurau diogelwch cysylltiedig y bydd gwasanaethau chwilio'n eu cael.

3.25 Wrth ystyried y ffactorau statudol (gweler paragraff 2.14 uchod), rydym yn cymhwyso egwyddorion cymesuredd, perthnasedd a phriodoldeb. Mae'r ffordd rydym yn teilwra hysbysiadau yn ystyried sut mae pob gwasanaeth yn cael ei ddylunio, ei ddefnyddio a'i weithredu ac, yn bwysig iawn, yn ystyried unrhyw risgiau cynhenid i ddefnyddwyr ac i ddefnyddwyr sy'n blant. Nod ein dull o deilwra yw cynhyrchu gofynion gwybodaeth sy'n rhoi gwybodaeth ystyrlon am wasanaethau unigol ac sy'n golygu bod modd cymharu gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Fel y nodwyd yn ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder, byddwn hefyd yn ystyried a yw'r wybodaeth eisoes wedi cael ei darparu neu ei

[15] Gweler hefyd ddogfen Ofcom, Cofrestr Risgiau, Adran 2A (Grŵmio).
16 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Troseddau yng Nghymru a Lloegr: Tablau'r atodiadau, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2026. (Cyrchwyd: 6 Tachwedd 2026)

chyhoeddi gan ddarparwr y gwasanaeth a'r ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau i ddatgelu patrymau neu dueddiadau sy'n deillio o adroddiadau tryloywder darparwyr.

3.26 Byddwn yn teilwra gofynion gwybodaeth i wasanaethau unigol drwy broses dau gam strwythuredig sydd wedi'i dylunio i ganiatáu i ni ddefnyddio methodoleg gyffredin a gwrthrychol ar draws yr holl wasanaethau wedi'u categoreiddio, gan gydnabod gwahaniaethau perthnasol rhwng gwasanaethau a darparwyr unigol. Gyda'i gilydd, mae hyn yn sicrhau bod y gofynion sydd ym mhob hysbysiad tryloywder yn berthnasol, yn briodol ac yn gymesur, a'n bod ond yn gofyn am yr hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion polisi, gan gynhyrchu gwybodaeth ystyrlon am ddiogelwch a risg y gellir ei chymharu ar draws gwasanaethau. Mae'r ddau gam yn cael eu disgrifio'n fanylach isod.

Asesiad cychwynnol sy'n seiliedig ar reolau

3.27 Mae cam cyntaf ein proses deilwra yn cynnwys asesiad sy'n seiliedig ar reolau i gymhwyso'r ffactorau i'r gofynion gwybodaeth o dan y penawdau craidd a thematig. Ar gyfer pob cwestiwn unigol, rydym yn nodi meini prawf sy'n seiliedig ar y ffactorau ym mharagraff 37 o Atodlen 8 i bennu pa wasanaethau sy'n cael y cwestiwn hwnnw. Mae sut byddwn yn penderfynu arnynt yn cael ei ddisgrifio yn 'Teilwra ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr' a 'Teilwra ar gyfer Gwasanaethau Chwilio' isod.

3.28 Byddwn wedyn yn cymharu'r rhestr o gwestiynau a meini prawf perthnasol â'r ffactorau sy'n berthnasol i bob gwasanaeth wedi'i gategoreiddio er mwyn cynhyrchu set gychwynnol o gwestiynau a allai fod yn berthnasol i bob gwasanaeth.

Asesiad lefel gwasanaeth

3.29 Mae cam nesaf ein proses deilwra yn cynnwys asesiad lefel gwasanaeth. Ar y cam hwn, rydym yn defnyddio'r meini prawf a sefydlwyd yn ystod yr asesiad sy'n seiliedig ar reolau ar gyfer gwasanaethau unigol, gan ystyried y ffactorau perthnasol ac ystyried a yw'r gofynion gwybodaeth canlyniadol yn berthnasol, yn briodol ac yn gymesur ar gyfer y gwasanaeth penodol. Rydym yn asesu'r cwestiynau a neilltuwyd yn ystod y cam blaenorol yn unigol ac fel set gyfunol o gwestiynau. Mae'r asesiad hwn yn ystyried nodweddion penodol y gwasanaeth a'r darparwr, gan gynnwys eu math o wasanaeth, swyddogaethau, nifer y defnyddwyr, cyfran y defnyddwyr sy'n blant, a dyletswyddau sy'n berthnasol i'r darparwr. Mae hefyd yn ystyried capasiti'r darparwr i ystyried baich tebygol darparu'r wybodaeth.

3.30 Yn ymarferol, mae'r asesiad hwn yn cynnwys ymgynghori â'n timau goruchwylio mewnol, arbenigwyr niwed, dadansoddwyr ymchwil a gwybodaeth, a dadansoddwyr economaidd, sy'n asesu'r broses gan ystyried y ffactorau i neilltuo gofynion gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn briodol i wasanaethau unigol.

3.31 Mae ein hasesiad o hyn yn cynnwys ystyried a yw ein cwestiynau'n debyg i'r rheini a nodir o dan drefniadau tryloywder eraill.

Ystyried "capasiti'r darparwr"[17]

3.32 Ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio, rydym wedi ystyried capasiti darparwr y gwasanaeth i gynhyrchu'r wybodaeth sy'n ofynnol o'r cwestiynau drwy asesu:

- gwybodaeth gyd-destunol am eu model busnes (e.e. elw/dielw) fel procsi ar gyfer capasiti; a

[17] Paragraff 37(d), Atodlen 8 i'r Ddeddf.

- maint y darparwr gwasanaeth (ar sail nifer y defnyddwyr o'u grŵp categoreiddio gwasanaeth).

3.33 Pan oedd ein hasesiad o gapasiti yn dangos bod tystiolaeth y gallai'r cwestiynau fod yn rhy feichus i ddarparwr, roeddem wedi ailystyried y dyraniad yn ôl blaenoriaeth y cwestiwn, baich y cwestiwn, a'n barn ni am gapasiti'r darparwr.

3.34 Rydym o'r farn bod maint y darparwr gwasanaeth (ar sail grŵp categoreiddio'r gwasanaeth) yn debygol o fod yn brocsi addas ar gyfer adnoddau ariannol y darparwr, a lefel yr arbenigedd technegol sydd ar gael i'r darparwr, neu y mae'n rhesymol disgwyl y byddai ar gael i'r darparwr o ystyried ei faint a'i adnoddau ariannol. Y rheswm am hyn yw y dylai gweithredwyr gwasanaethau mwy, ar gyfartaledd, fod â mwy o adnoddau ariannol / arbenigedd technegol i ymateb i'r hysbysiadau. Rydym wedi ystyried procsis posibl eraill ar gyfer capasiti (fel nifer y cyflogeion, proffidioldeb a refeniw) ond mae nifer o anfanteision, gan gynnwys anawsterau wrth wneud cymariaethau cyson, ac anawsterau o ran gosod trothwyon ystyrlon ar gyfer lefelau capasiti. Rydym hefyd wedi nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio mesurau amgen o gapasiti darparwyr, fel adnoddau technegol, refeniw a phroffidioldeb, wrth ddatblygu ein codau ymarfer. Gweler ein Datganiad Niwed Anghyfreithlon[18] i gael rhagor o fanylion.

Teilwra ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr

3.35 Fel y nodir yn ein Canllawiau Adroddiadau Tryloywder, byddwn yn ystyried sut mae nodweddion pob gwasanaeth, gan gynnwys nifer y defnyddwyr, y math o wasanaeth, swyddogaethau a chyfran y defnyddwyr sy'n blant, yn dangos risgiau cynhenid penodol. Pan fyddwn o'r farn bod risg debygol yn cael ei nodi, byddwn yn gofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â mesurau diogelwch sy'n berthnasol i'r risgiau hynny. Isod, rydym yn nodi enghreifftiau o sut roeddem wedi defnyddio'r dull hwn i neilltuo cwestiynau ar draws yr hysbysiadau tryloywder drafft rydym yn cynnig adrodd arnynt ym mlwyddyn 1[19]:

- **Nifer y defnyddwyr a swyddogaethau:** Pan fydd swyddogaethau a niferoedd defnyddwyr gwasanaeth yn dangos bod modd lledaenu cynnwys yn hawdd, yn gyflym ac yn eang, rydym fel arfer yn cynnig gofynion mwy helaeth ar draws y meysydd pwnc craidd perthnasol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i wasanaethau Categori 1.
- **Math o wasanaeth:** Pan fydd proffiliau risg Ofcom[20] yn dynodi bod math o wasanaeth yn ffactor risg ar gyfer niwed o sawl math o gynnwys anghyfreithlon a sawl math o gynnwys sy'n niweidiol i blant (e.e. gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol), rydym yn cynnig gofynion mwy helaeth mewn meysydd perthnasol fel cymedroli cynnwys, adrodd a chwynion, a diogelu defnyddwyr sy'n blant. Pan fydd math o wasanaeth yn gysylltiedig â niwed penodol, gall hyn hefyd lywio a yw gofynion thematig perthnasol yn briodol.
- **Swyddogaethau:** Fe wnaethom ystyried a yw swyddogaethau unigol, neu gyfuniadau o swyddogaethau, yn dynodi risgiau penodol. Er enghraifft, fe wnaethom ystyried cyfuniadau o swyddogaethau sy'n gysylltiedig â risg uwch o grŵmio wrth benderfynu pa wasanaethau ddylai gael y gofynion thematig ar grŵmio. Dim ond pan fydd gan y

[18] Gweler dogfen Ofcom, Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein: Ein dull o ddatblygu mesurau Codau, paragraffau 1.159 a 1.163-1.165.
[19] Ar hyn o bryd mae'r hysbysiadau hyn ar ffurf drafft a byddwn yn ystyried sylwadau gan ddarparwyr gwasanaeth cyn cyhoeddi'r hysbysiadau terfynol.
[20] Gweler dogfen Ofcom, Canllawiau Asesu Risg a Phroffiliau Risg, Rhan 3, Adran 1 (Proffiliau Risg), a Canllawiau Asesiad Risg Plant a Phroffiliau Risg Plant, Rhan 3, Adran 1 (Proffiliau Risg Plant).

gwasanaeth y swyddogaeth berthnasol y cynigir cwestiynau am swyddogaethau penodol.

- **Cyfran y defnyddwyr sy'n blant:** Mae cyfran y defnyddwyr sy'n blant ar wasanaeth yn sail i'r graddau rydym yn cynnig gofynion ynghylch mesurau sydd wedi'u dylunio i amddiffyn plant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gwestiynau yn y pwnc amddiffyn defnyddwyr sy'n blant, ond hefyd i gwestiynau perthnasol mewn pynciau eraill fel cymedroli cynnwys ac adrodd a chwynion. Yn gyffredinol, nid ydym yn cynnig gofynion sy'n benodol i blant lle mae nifer y defnyddwyr sy'n blant ar y gwasanaeth yn debygol o fod yn de minimis, (a bennir mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy ystyried data ymchwil).

Teilwra ar gyfer gwasanaethau chwilio

3.36 Ar gyfer gwasanaethau chwilio, rydym yn defnyddio'r un dull cyffredinol o neilltuo cwestiynau a ddefnyddiwn ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr, fel y disgrifir ym mharagraff 3.34 uchod. Isod, rydym yn nodi enghreifftiau o sut roeddem wedi defnyddio'r dull hwn i neilltuo cwestiynau ar draws yr hysbysiadau tryloywder drafft rydym yn cynnig adrodd arnynt ym mlwyddyn 1[21]:

- Pan fydd nifer defnyddwyr gwasanaeth chwilio, ynghyd â'i swyddogaethau, yn dangos risg uwch o niwed i ddefnyddwyr, roeddem o'r farn bod hyn yn sail i neilltuo cwestiynau i wasanaethau. Wrth wneud hynny, fe wnaethom ystyried y meini prawf Categori 2A, sy'n cyfuno niferoedd defnyddwyr a swyddogaethau chwilio, fel dangosydd risg y gall nifer fawr o ddefnyddwyr gael gafael ar gynnwys drwy ganlyniadau chwilio. Roedd hyn yn cyfiawnhau nifer fwy o gwestiynau ar draws themâu sy'n benodol i chwilio.
- Rydym wedi neilltuo cwestiynau penodol i chwilio o'n cronfa gwestiynau i wasanaethau chwilio, a lle bo hynny'n briodol, wedi addasu cwestiynau i'w gwneud yn berthnasol i'r swyddogaeth chwilio.
- Pan fydd gan wasanaeth chwilio swyddogaeth chwilio GenAI, rydym hefyd wedi neilltuo cwestiynau sy'n ymwneud â mesurau diogelu chwilio GenAI.

[21] Ar hyn o bryd mae'r hysbysiadau hyn ar ffurf drafft a byddwn yn ystyried sylwadau gan ddarparwyr gwasanaeth cyn cyhoeddi'r hysbysiadau terfynol.

4. Cyfnod adrodd a chyflwyno

Cael hysbysiadau tryloywder blynyddol gan Ofcom

4.1 Ar gyfer y flwyddyn gyntaf o adrodd ar dryloywder, bydd gan ddarparwyr bedwar mis i ymateb i'w hysbysiadau tryloywder terfynol. Rydym o'r farn bod yr amserlen hon yn taro cydbwysedd priodol rhwng sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n brydlon ac yn rhoi digon o amser i ddarparwyr ymateb i'w hysbysiadau tryloywder.

4.2 Rydym yn cydnabod y gallai'r cylch adrodd cyntaf fod yn anoddach i ddarparwyr. Wrth i ddarparwyr ddod yn fwy cyfarwydd ag adrodd ar dryloywder a sefydlu prosesau ar gyfer ymateb i hysbysiadau tryloywder, rydym yn disgwyl i ddarparwyr allu ymateb i gyfnod ymateb byrrach o ddau fis mewn blynyddoedd adrodd dilynol.

Cyfnodau adrodd ar dryloywder

4.3 Bydd y cyfnod adrodd safonol rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd defnyddio cyfnod adrodd cyson yn rhoi sail gyffredin i adrodd ar draws gwasanaethau ac yn cefnogi'r gwaith o gymharu gwybodaeth rhwng blynyddoedd adrodd.

4.4 Ar gyfer y flwyddyn adrodd gyntaf, bydd darparwyr yn adrodd ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027. Pan ddaw dyletswydd berthnasol i rym ran o'r ffordd drwy'r cyfnod hwnnw, dim ond ar y cyfnod yr oedd y ddyletswydd honno mewn grym y bydd yn rhaid i ddarparwyr adrodd. Ni fydd dyletswyddau nad ydynt wedi dod i rym erbyn 31 Mawrth 2027 yn cael eu cynnwys yn adroddiadau Blwyddyn 1.

5. Asesiad o Effaith ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder

5.1 Mae'r adran hon yn ystyried manteision a chostau tebygol ein dull polisi o ymdrin ag adrodd ar dryloywder, fel yr esbonnir yn adran 3 'Ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder'.

Manteision ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder

5.2 Rydym o'r farn bod dwy brif fantais i'n dull o ymdrin â hysbysiadau tryloywder: rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr a'u grymuso; ac arwain at welliannau i wasanaethau. Rydym yn trafod y rhain yn fanylach isod. Drwy ganolbwyntio ar fesurau, systemau a phrosesau diogelwch trawsbynciol, rydym o'r farn y gall ein dull gweithredu roi darlun cynhwysfawr o sut mae darparwyr yn ceisio diogelu defnyddwyr. Ar y llaw arall, rydym o'r farn mai dim ond gwybodaeth rannol neu gul a gaed am arferion diogelwch gan adroddiadau tryloywder sydd ond yn canolbwyntio ar niwed neu ar systemau a phrosesau.

5.3 Er mwyn cyflawni'r ddwy fantais hyn, rhaid i ddarparwyr gyhoeddi gwybodaeth glir ac ystyrlon am y risgiau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaethau a'r systemau, y prosesau a'r mesurau maent yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Rydym yn credu y bydd adrodd ar dryloywder yn ychwanegu gwerth at y ddadl gyhoeddus ehangach ar ddiogelwch ar-lein gan fod yr wybodaeth rydym yn gofyn amdani yn berthnasol i gynulleidfaoedd y DU.

Rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr a'u grymuso

5.4 Mae ein dull o ganolbwyntio ar wybodaeth am wasanaethau a mesurau diogelwch trawsbynciol yn golygu bod defnyddwyr (gan gynnwys rhieni a gofalwyr) yn gallu cael gafael ar wybodaeth am sut mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â risgiau o fathau amrywiol o gynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, gan helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy diogel ar-lein.

5.5 Er enghraifft, drwy godi ymwybyddiaeth o sut mae gwasanaethau'n rheoli nodweddion peryglus fel sgrolio parhaus neu ddiddiwedd, gall defnyddwyr benderfynu a ydynt am gyfyngu ar eu hamser nhw neu amser plentyn ar wasanaeth; neu gall gwybodaeth am ganlyniad apeliadau lywio'r llwybrau uwchgyfeirio posibl ar wasanaeth, gan gynnwys pa mor hir gall cynnwys aros ar wasanaeth cyn cymryd camau gorfodi. Gall gwybodaeth am weithredu a defnyddio rheolaethau rhieni hefyd helpu defnyddwyr, yn enwedig rhieni a gofalwyr, i ddeall sut gallant wneud profiadau ar-lein eu plant yn fwy diogel a gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch lle sy'n ddiogel i'w plentyn ar-lein. Gall defnyddwyr hefyd gael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant ar wasanaeth penodol pan ofynnir i wasanaethau ymateb i gwestiynau am sut maent yn grwpio plant yn grwpiau oedran, a sut mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio i deilwra mesurau diogelu a phrofiadau defnyddwyr.

5.6 Mae ein damcaniaeth newid hefyd yn ystyried y gall cyfryngwyr ymhelaethu ar ganfyddiadau o'r fath yn ogystal â'u trosi'n wybodaeth hawdd ei deall ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys plant. Er enghraifft, gall grwpiau defnyddwyr sy'n poeni am niwed pornograffi i blant drosi gwybodaeth am sut mae dulliau sicrwydd oedran yn cael eu defnyddio i ddarparu profiadau sy'n briodol i oedran yn adnoddau ymarferol i rieni. Gall grwpiau cymdeithas sifil sy'n poeni am ledaenu cynnwys casineb drwy systemau argymell

cynnwys gynyddu'r wybodaeth am y mesurau diogelu sydd gan wahanol wasanaethau ar waith mewn perthynas â'r systemau hyn, ac egluro'r goblygiadau i'r risgiau sy'n wynebu defnyddwyr.

Arwain at welliannau diogelwch

5.7 Rydym o'r farn bod darparu gwybodaeth gyhoeddus yn gallu dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr, hysbysebwyr a buddsoddwyr, gan greu cymhellion i ddarparwyr i wella diogelwch ar eu gwasanaeth. Bydd darparwyr sy'n cystadlu i ddenu defnyddwyr, cymunedau crewyr a hysbysebwyr yn gallu cymharu risgiau ac ymyriadau diogelwch, gan alluogi Ofcom a chyfryngwyr eraill i ganfod arferion gwael a gorau, a allai, yn ein barn ni, arwain at gymhellion i wella diogelwch gwasanaethau.

5.8 Rydym wedi ystyried y gwahanol ffyrdd y gall hyn gael effaith. Er enghraifft, bydd gofyn i ddarparwyr fapio eu polisïau a'u dulliau gorfodi i ddangos sut maent yn mynd i'r afael â niwed a thramgwyddau perthnasol o dan y Ddeddf (pwnc tacsonomeg); gall hyn helpu arbenigwyr academaidd a chymdeithas sifil i ddadansoddi niwed penodol, a defnyddio'r wybodaeth honno i ddatblygu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac eiriol dros wella diogelwch. Yn yr un modd, gall ateb cwestiynau am grŵmio a diogelwch plant roi gwybod i hysbysebwyr a yw gwasanaeth penodol yn mynd i'r afael yn ddigonol â chynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol cyn cynghori brandiau i gynnal ymgyrchoedd.

5.9 Ar ben hynny, mae teilwra hysbysiadau yn ôl nodweddion gwasanaeth (e.e. math o wasanaeth, swyddogaethau a nifer y defnyddwyr) yn agor craffu cyhoeddus ar ddealltwriaeth gwasanaethau o'u risgiau, gan greu cymhellion i'r darparwr gyfiawnhau ei ddealltwriaeth o'r risgiau i ddefnyddwyr, a/neu wella mesurau diogelwch presennol i fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, gall cwestiynau ynghylch adnoddau timau cymedroli helpu hysbysebwyr i ddeall sut mae darparwyr yn gwneud penderfyniadau cywir ac amserol, ac a all eu hadnoddau fynd i'r afael yn ddigonol ac yn gyson â'r gwahanol niwed sy'n berthnasol i'w gwasanaeth. Gall cwestiynau am brosesau i wirio risg bosibl nodweddion a swyddogaethau newydd roi hyder i hysbysebwyr am drosolwg llywodraethiant mewnol gwasanaethau.

5.10 Fel y nodir yn Atodiad 6, rydym hefyd wedi ystyried adroddiadau tryloywder presennol gan wasanaethau wedi'u categoreiddio a thystiolaeth o drefniadau tryloywder eraill. Mae hyn wedi ein helpu i ganfod meysydd lle nad oes gwybodaeth bwysig ar gael ar hyn o bryd am ddefnyddwyr yn y DU ac a fyddai felly o werth, neu nad yw'n cael ei hadrodd mewn ffordd ddigon cyson na chymaradwy i gael darlun llawn o sut mae gwasanaethau wedi'u categoreiddio yn rheoli risgiau diogelwch.

5.11 I gloi, credwn y gall y pynciau craidd a thematig gynnig cipolwg unigryw sy'n berthnasol i ddiogelwch defnyddwyr yn y DU a helpu i arwain at welliannau ar wasanaethau.

Costau sy'n ymwneud â'n dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder

5.12 Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'r costau uniongyrchol / anuniongyrchol sy'n deillio o'n dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder a'n dyletswydd twf.

Costau Uniongyrchol

5.13 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi hysbysiad tryloywder blynyddol i bob darparwr gwasanaeth wedi'i gategoreiddio. O'r herwydd, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaeth wynebu rhywfaint o gostau uniongyrchol wrth gydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys costau canolog a chostau sy'n benodol i gwestiynau.

- **Costau canolog** yw'r rheini y byddai darparwr gwasanaeth yn debygol o'u hwynebu ni waeth beth fo'r nifer neu'r math o gwestiynau. Bydd y costau hyn yn adlewyrchu gweithgareddau fel adolygu'r hysbysiadau cychwynnol, nodi cwestiynau perthnasol, cydlynu â thimau prosiect, llunio ymatebion, cytuno ar gymeradwyaeth gan uwch gyfarwyddwyr a chyflwyno'r ymatebion terfynol i Ofcom. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol hefyd mewn perthynas ag ymateb i esboniadau posibl a geisir gan Ofcom am yr wybodaeth a gyflwynir.
- Mae **costau penodol i gwestiynau** yn adlewyrchu'r costau y bydd darparwyr gwasanaeth yn debygol o'u hwynebu wrth ymateb i gwestiwn unigol ac maent yn cynnwys gweithgareddau fel coladu neu gasglu gwybodaeth, dilysu cywirdeb yr wybodaeth honno a'i darparu i dîm canolog. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol hefyd mewn perthynas ag ymateb i esboniadau posibl a geisir gan Ofcom am yr wybodaeth a gyflwynir.

5.14 Mae costau ymateb i hysbysiadau tryloywder yn debygol o amrywio'n sylweddol ar draws darparwyr gwasanaeth. Amlygir hyn gan asesiad enghreifftiol o'r costau uniongyrchol tebygol i ddarparwyr gwasanaeth ym mlwyddyn 1 yn Atodiad 5. Y rheswm am hyn yw y bydd yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen yn dibynnu ar ffactorau fel cymhlethdod y gwasanaeth, prosesau presennol a'r wybodaeth y gofynnir amdani. Mae'r costau'n debygol o fod yn is ar gyfer gwasanaethau sy'n cael llai o gwestiynau. I'r gwrthwyneb, gall gwasanaethau sy'n cael mwy o gwestiynau wynebu costau uwch, yn enwedig lle mae'n rhaid casglu gwybodaeth gan nifer o dimau neu systemau. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r manteision a'r costau dyfu'n gymesur, fel bod disgwyl i unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi gyda nifer uwch o gwestiynau gyd-fynd â chynnydd cyfatebol yng ngwerth / manteision yr wybodaeth.

5.15 Rydym hefyd yn disgwyl y gellid lliniaru'r costau i ryw raddau gan fod llawer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn debygol o gasglu a/neu fod â phrosesau a systemau ar waith i gasglu'r wybodaeth berthnasol am ddefnyddwyr. Y rheswm am hyn yw bod llawer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn debygol o dracio ymddygiad defnyddwyr (gan gynnwys sut mae defnyddwyr yn ymgysylltu â chynnwys ac yn defnyddio eu llwyfan) a dylai fod ganddynt systemau / prosesau sy'n casglu gwybodaeth sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r hysbysiadau tryloywder. Ategir hyn ymhellach gan y canlynol:

- Mae nifer fawr o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn adrodd am wybodaeth debyg yn eu hadroddiadau tryloywder gwirfoddol fel y dangosir yn Atodiad 6 'Tystiolaeth'. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod darparwyr gwasanaeth sy'n cael nifer uwch o gwestiynau eisoes yn fwy tebygol o gyhoeddi rhagor o wybodaeth debyg yn eu hadroddiadau tryloywder.
- Mae rhai darparwyr gwasanaeth eisoes yn casglu ac yn adrodd ar wybodaeth debyg er mwyn cydymffurfio â'u hasesiad risg cynnwys anghyfreithlon a phlant, a dyletswyddau cadw cofnodion cyfatebol yn y Ddeddf.

- Mae rhai darparwyr gwasanaeth eisoes yn rhwym wrth ofynion tryloywder mewn awdurdodaethau eraill fel Awstralia ac ar draws Ewrop, ac mae ganddynt adnoddau a phrosesau mewnol ar eu cyfer i gynhyrchu adroddiadau blynyddol.[22]

5.16 Mae'n debygol y bydd y costau'n uwch yn y flwyddyn adrodd gyntaf gan ei bod yn debygol y bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth sefydlu prosesau newydd. Fodd bynnag, bydd y costau hyn yn disgyn dros amser wrth i ddarparwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r hysbysiadau tryloywder a gallu defnyddio systemau, prosesau a threfniadau adrodd sefydledig wrth baratoi eu hymatebion. Mae hyn yn cyd-fynd ag asesiad y Llywodraeth, a oedd yn tybio y byddai costau cydymffurfio parhaus yn disgyn 50% ar ôl y flwyddyn gyntaf.[23]

5.17 Er y bydd ein gofynion adrodd yn golygu costau uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaeth, rydym o'r farn mai ein dull gweithredu presennol yn Adran 3 yw'r mwyaf priodol a chymesur o ystyried ein dyletswydd i gyhoeddi hysbysiadau tryloywder i wasanaethau wedi'u categoreiddio. Y rheswm am hyn yw bod ein dull gweithredu yn sicrhau y bydd y costau'n gymesur â maint y manteision ac yn sicrhau bod unrhyw gostau gormodol yn cael eu lleihau drwy[24]:

- Dyrannu gofynion gwybodaeth ar sail y swyddogaethau a'r risgiau a briodolir i'r gwasanaeth, sy'n sicrhau y bydd darparwyr gwasanaeth yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n arwain at fanteision;
- Rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaeth o ran pa dechneg / metrigau samplu y gallant eu defnyddio i ateb y cwestiwn tryloywder;
- Cysoni arferion adrodd (fel diffiniadau) â'r rheini sy'n cael eu defnyddio yn ffrydiau gwaith eraill Ofcom;
- Sicrhau bod y meysydd pwnc a natur y cwestiynau'n cyd-fynd â rheoliadau tryloywder ar draws awdurdodaethau rhyngwladol (e.e. DSA yr UE, Adroddiad CSEA Awstralia)[25]; a
- Fel rhan o'n camau nesaf, rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr gwasanaeth yn ystod y cam cynrychiolaeth i ddeall yn well yr wybodaeth y gofynnir amdani a beth allai fod yn gyrru'r tueddiadau (e.e. ffactorau allanol) er mwyn osgoi unrhyw waith diangen yn nes ymlaen.

5.18 Fel y trafodwyd uchod, rydym wedi cynnal asesiad enghreifftiol o'r costau uniongyrchol tebygol ar gyfer blwyddyn 1 yn atodiad 5 er mwyn rhoi syniad o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'n dull gweithredu. Ar gyfer hyn, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n

---

[22] Er enghraifft, mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnwys Facebook, Instagram, Reddit, Snapchat, TikTok, YouTube, Discord a Twitch, yn rhwym wrth ofynion gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad Mynediad Plant yn Awstralia. Yn yr un modd, mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnwys Facebook, Instagram, Pinterest, Snapchat, TikTok, WhatsApp, X, YouTube, Google Search, Bing a Pornhub, yn gorfod cyhoeddi adroddiadau tryloywder blynyddol o dan Ddeddf Gwasanaethau Digidol yr UE (DSA). Gweler BOSE-full-report-CSEA-sexual-extortion-periodic-notices-Feb2026Update_0.pdf and Implementing Regulation laying down templates concerning the transparency reporting obligations of providers of online platforms | Shaping Europe's digital future.

[23] Gweler paragraff 203 Asesiad o'r effaith ar ddeddfiad y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

[24] Mae hyn yn cyd-fynd â'r pedwar ffactor a nodwyd gan Lywodraeth y DU. Gweler paragraff 202 Asesiad o'r effaith ar ddeddfiad y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

[25] Er enghraifft, mae Adroddiadau Cyfnodol DSA yr UE yn edrych ar benderfyniadau cymedroli cynnwys gan ddarparwyr, ac mae adroddiadau cyfnodol Awstralia yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'u cam-drin yn rhywiol fel canfod, ymateb ac atal. Gweler Implementing Regulation laying down templates concerning the transparency reporting obligations of providers of online platforms | Shaping Europe's digital future a BOSE-full-report-CSEA-sexual-extortion-periodic-notices-Feb2026Update_0.pdf.

goramcangyfrif y costau i ddarparwyr gwasanaeth gan y byddai hyn yn caniatáu i ni adlewyrchu'r costau cysylltiedig yn well yn ein dadansoddiad ac yn rhoi sicrwydd pellach i ni fod ein dull gweithredu yn dal yn gymesur, hyd yn oed pan fydd y costau'n cael eu goramcangyfrif. Rydym yn bwriadu defnyddio'r broses gynrychioli i ddeall yn well beth yw'r goblygiadau i bob darparwr gwasanaeth.

5.19 Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein dull gweithredu, rydym hefyd wedi ystyried dulliau eraill o ymdrin â'r hysbysiadau tryloywder fel canolbwyntio'r cwestiynau ar ychydig o niwed allweddol neu ganolbwyntio ar niwed allweddol, a systemau a phrosesau. Nodwn y byddai'r dulliau hyn yn dal i olygu bod darparwyr gwasanaeth yn cael rhywfaint o gostau uniongyrchol oherwydd byddai angen iddynt gasglu a chyflwyno gwybodaeth yn yr un modd (gan gynnwys gwybodaeth am eu prosesau / systemau). Nodwn y gallai ein dull gweithredu arwain at gostau uwch na chanolbwyntio ar ychydig o niwed allweddol oherwydd byddai darparwr gwasanaeth yn darparu gwybodaeth ar ystod ehangach o niwed ond byddem hefyd yn disgwyl y byddai manteision gwneud hynny'n uwch oherwydd byddai defnyddwyr / hysbysebwyr yn gallu cael gafael ar ragor o wybodaeth ar ystod ehangach o niwed. Nodwn hefyd ei bod yn debygol y byddai'r costau'n uwch wrth ganolbwyntio ar gyfuniad o niwed allweddol, a systemau a phroses, oherwydd mae'n debyg y byddai hynny'n arwain at ofyn rhagor o gwestiynau i ddarparwyr gwasanaeth.

Costau Anuniongyrchol

5.20 Nid ydym yn disgwyl y byddai ein dull gweithredu yn arwain at gostau anuniongyrchol sylweddol i ddarparwyr. Gallai darparwyr gwasanaeth wynebu rhai costau anuniongyrchol oherwydd bod defnyddwyr neu hysbysebwyr yn ymgysylltu llai pan fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn tynnu sylw at lefelau uwch o risg. Er y gallai hyn leihau refeniw i'r rheini y credir sydd â risg uwch, gall defnyddwyr a hysbysebwyr ddefnyddio mwy ar wasanaethau sydd â risg is oherwydd eu bod yn deall y gwasanaeth maent yn ei ddefnyddio'n well.

5.21 Yn y tymor hirach, os bydd llai o ymgysylltu â rhai darparwyr gwasanaeth oherwydd datgeliadau tryloywder, gallai eu cymell i leihau'r risgiau i ddefnyddwyr a gwella eu mesurau, gan arwain at fanteision ehangach dros amser. Gallai hyn olygu y bydd defnyddwyr a hysbysebwyr efallai'n defnyddio mwy ar wasanaeth, sy'n cynyddu refeniw yn y dyfodol.

5.22 Rydym wedi ystyried dulliau eraill fel y trafodwyd uchod ac nid ydym yn disgwyl y byddai'r dulliau hyn yn arwain at effaith sylweddol wahanol i'r uchod. Er enghraifft, gallai canolbwyntio ar ychydig o niwed allweddol arwain at gostau anuniongyrchol is (oherwydd gallai defnyddwyr / hysbysebwyr newid eu hymddygiad llai oherwydd bod ganddynt lai o wybodaeth) ond rydym hefyd yn nodi y bydd y manteision cyfatebol yn is.

Dyletswydd twf

5.23 Wrth ystyried ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder, rydym wedi ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd. Rydym yn disgwyl mai cyfyngedig fydd unrhyw effaith niweidiol ar dwf economaidd y DU yn sgil ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder. Bydd y dyletswyddau tryloywder yn golygu costau i ddarparwyr gwasanaeth (a allai effeithio ar eu gallu neu eu cymhellion i fuddsoddi ac i arloesi) ond mae hyn yn debygol o gael ei liniaru i ryw raddau fel y trafodir uchod. Rydym hefyd yn disgwyl y gallai fod effeithiau cadarnhaol ar gystadleuaeth, arloesi a/neu fuddsoddi a allai gefnogi twf economaidd – y rheswm am hyn yw y gallai'r hysbysiadau tryloywder wneud y canlynol:

- Cefnogi twf darparwyr gwasanaeth sydd ag arferion diogelwch cryfach oherwydd gallai hysbysiadau tryloywder arwain defnyddwyr a hysbysebwyr i ddefnyddio mwy ar y gwasanaethau hyn;
- Cefnogi twf yn y sector newyddion ar-lein drwy gryfhau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn darparwyr gwasanaeth sydd â phrosesau cryfach i ganfod ac i atal camwybodaeth a thwyllwybodaeth;
- Gwella cystadleuaeth drwy alluogi defnyddwyr a hysbysebwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus rhwng gwasanaethau, gan annog darparwyr gwasanaeth i gystadlu ar wella arferion diogelwch;
- Helpu i leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau diogelwch ar-lein (e.e. plant yn gweld cynnwys peryglus), sy'n lleihau'r effaith a'r costau canlyniadol i ddarparwyr gwasanaeth ddelio â'r digwyddiadau hyn; a
- Parhau i wella profiadau cadarnhaol ar-lein i ddefnyddwyr ar lwyfannau wedi'u categoreiddio, gan gynnwys ar gyfer y diwydiant creadigol, busnesau bach a chanolig, mentrau addysgol, gan feithrin modelau busnes newydd sy'n gweithredu mewn amgylchedd mwy diogel.

Casgliad dros dro ynghylch ein hasesiad effaith

5.24 Ein casgliad dros dro yw nad yw ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn debygol o roi beichiau ar ddarparwyr gwasanaeth sy'n anghymesur â'r manteision cyfatebol.

5.25 Rydym o'r farn y gallai hysbysiadau tryloywder arwain at fanteision sylweddol gan eu bod yn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy diogel ar-lein ac yn sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaeth y cymhellion i wella diogelwch, a bod ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn cyd-fynd â chyflawni'r manteision hyn.

5.26 Rydym o'r farn bod ein dull cyffredinol o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn gymesur gan mai'r ffocws ar fesurau diogelwch trawsbynciol, a systemau a phrosesau fydd yn debygol o sicrhau'r manteision mwyaf gan ei fod yn rhoi darlun mwy cyflawn o'r sector ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gadw golwg ar sut mae gwasanaethau'n rheoli risgiau o dan y Ddeddf.

5.27 Er y byddai ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn arwain at gostau i ddarparwyr gwasanaeth, rydym o'r farn y byddai'n sicrhau mai dim ond i gwestiynau a allai arwain at fanteision y byddai angen i ddarparwyr gwasanaeth ymateb, ac mae hefyd yn sicrhau y bydd manteision yr hysbysiad cyffredinol yn codi yn unol â'r costau. Rydym hefyd yn disgwyl y gellid lliniaru'r costau i ddarparwyr gwasanaeth i ryw raddau oherwydd dylai llawer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes fod â phrosesau a systemau ar waith i gasglu'r wybodaeth ac ymateb i'r cwestiynau. Er enghraifft, mae nifer fawr o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn adrodd am wybodaeth debyg yn eu hadroddiadau tryloywder gwirfoddol.

6. Cwestiwn yr Ymgynghoriad

6.1 “Ydych chi’n cytuno â’r asesiad o effaith ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder”?

A1. Materion y gall fod angen gwybodaeth amdanynt

A1.1 Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys y rhestr o faterion yn Atodlen 8 i'r Ddeddf am y mathau o wybodaeth y gellir gofyn amdanynt am faterion diogelwch ar-lein gan wasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr Categori 1 a 2B (Rhan 1) a gwasanaethau chwilio Categori 2A (Rhan 2).[26] Mae rheolau arbennig sy'n berthnasol i ba rai o'r mathau hyn o wybodaeth y gallai fod eu hangen ar wasanaeth cyfun, yn dibynnu ar y rhannau o gofrestr Ofcom o wasanaethau wedi'u categoreiddio y mae wedi'i rhestru oddi tanynt.[27]

Rhan 1. Materion y gallai fod angen gwybodaeth amdanynt: rhan defnyddiwr i ddefnyddiwr o'r gwasanaeth

1. Achosion o gynnwys anghyfreithlon, cynnwys sy'n niweidiol i blant, cynnwys perthnasol a chynnwys y mae adran 15(2) yn gymwys iddo ar wasanaeth.
2. Dosbarthu cynnwys anghyfreithlon, cynnwys sy'n niweidiol i blant, cynnwys perthnasol a chynnwys y mae adran 15(2) yn gymwys iddo drwy gyfrwng gwasanaeth.
3. Nifer y defnyddwyr y tybir sydd wedi dod ar draws cynnwys anghyfreithlon, cynnwys sy'n niweidiol i blant, cynnwys perthnasol neu gynnwys y mae adran 15(2) yn gymwys iddo drwy gyfrwng y gwasanaeth.
4. Lluniad, datblygiad, cwmpas a defnydd telerau'r gwasanaeth.
5. Y systemau a'r prosesau i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys sydd yn eu barn nhw yn gynnwys anghyfreithlon, yn gynnwys sy'n niweidiol i blant neu yn gynnwys perthnasol.
6. Y systemau a'r prosesau y mae darparwr yn eu defnyddio i ddelio â chynnwys anghyfreithlon, cynnwys sy'n niweidiol i blant a chynnwys perthnasol, gan gynnwys systemau a phrosesau i adnabod cynnwys o'r fath a'i dynnu i lawr.
7. Swyddogaethau sydd wedi'u cynllunio i helpu defnyddwyr i reoli risgiau sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant a chynnwys perthnasol.
8. Nodweddion, gan gynnwys swyddogaethau, y mae darparwr yn credu allai gyfrannu at risgiau o niwed i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan y darparwr i liniaru ac i reoli'r risgiau hynny.

[26] Rhannau 1 a 2 O Atodlen 8 i'r Ddeddf.

[27] Adran 77(8) a (9) o'r Ddeddf. Os yw gwasanaeth cyfun yn wasanaeth Categori 2A ac yn wasanaeth Categori 1 neu 2B,
gall Ofcom ofyn am wybodaeth defnyddiwr i ddefnyddiwr neu wybodaeth peiriant chwilio neu'r naill a'r llall. Os yw
gwasanaeth cyfun yn wasanaeth Categori 2A yn unig ac nid yn wasanaeth Categori 1 neu 2B hefyd, yna dim ond
gwybodaeth peiriant chwilio fydd ei hangen.

9. Dyluniad a gweithrediad algorithmau sy'n effeithio ar ddangos, hyrwyddo, cyfyngu neu argymell cynnwys anghyfreithlon, cynnwys sy'n niweidiol i blant, cynnwys perthnasol neu gynnwys y mae adran 15(2) yn berthnasol iddo.
10. Mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir ym Mhennod 2 neu 4 o Ran 3 neu adran 38 (gan gynnwys yn benodol fesurau a ddisgrifir mewn cod ymarfer o dan adran 41).
11. Mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio â'r ddyletswydd a nodir yn adran 64(1) (dilysu manylion adnabod defnyddiwr).
12. Trefniadau sydd gan ddarparwr ar waith i roi gwybod (yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) am gynnwys sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, a mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio â gofyniad o dan adran 66.
13. Mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir yn adran 71 neu 72 (telerau gwasanaeth).
14. Mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir yn adran 75 (defnyddwyr sy'n blant a fu farw).
15. Y systemau a'r prosesau mae darparwr yn eu defnyddio i asesu'r risg o niwed i unigolion oherwydd presenoldeb cynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant— a) pan fydd y gwasanaeth yn cael ei ddylunio neu ei ddatblygu i ddechrau, b) pan ystyrir unrhyw ddatblygiadau neu ddiweddariadau pellach i'r gwasanaeth, ac c) pan fydd y gwasanaeth ar waith.
16. Y systemau a'r prosesau mae darparwr yn eu gweithredu— a) i gyfeirio defnyddwyr y gwasanaeth at wybodaeth am sut gallant ddiogelu eu hunain rhag niwed mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, a b) atal neu gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol sy'n bresennol ar y gwasanaeth.
17. Cydweithrediad gan ddarparwr â'r llywodraeth, cyrff rheoleiddio neu gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith droseddol.
18. Mesurau a gymerir neu a ddefnyddir gan ddarparwr i ddarparu ar gyfer safon uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion.
19. Mesurau a gymerir neu a ddefnyddir gan ddarparwr i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r cyfryngau, a gwerthusiad o effeithiolrwydd mesurau o'r fath.
20. Unrhyw fesurau eraill a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr sy'n ymwneud â materion diogelwch ar-lein.

Rhan 2. Materion y gall fod angen gwybodaeth amdanynt: peiriant chwilio

21. Achosion o gynnwys chwilio anghyfreithlon a chynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant ar wasanaeth.
22. Nifer y defnyddwyr y tybir eu bod wedi dod ar draws cynnwys chwilio anghyfreithlon neu gynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant.

23. Creu, datblygu, cymhwyso a chwmpas y datganiadau o bolisïau a'r gweithdrefnau a grybwyllir yn adrannau 27(5) a 29(5).

24. Y systemau a'r prosesau i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys chwilio sydd, yn eu barn nhw, yn gynnwys anghyfreithlon neu'n gynnwys sy'n niweidiol i blant, neu gynnwys arall sydd, yn eu barn nhw, yn torri unrhyw ddatganiadau o bolisïau a gweithdrefnau sydd ar gael i'r cyhoedd gan y darparwr gwasanaeth.

25. Y systemau a'r prosesau mae darparwr yn eu defnyddio i ddelio â chynnwys chwilio anghyfreithlon a chynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant, gan gynnwys systemau a phrosesau i adnabod cynnwys o'r fath a lleihau'r risg o ddod ar draws y mathau hynny o gynnwys drwy'r gwasanaeth.

26. Swyddogaethau sydd wedi'u cynllunio i helpu defnyddwyr i reoli risgiau sy'n ymwneud â chwilio am gynnwys sy'n niweidiol i blant.

27. Dylunio a gweithredu algorithmau sy'n effeithio ar arddangos, hyrwyddo, cyfyngu neu argymell cynnwys chwilio anghyfreithlon neu gynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant.

28. Mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir ym Mhennod 3 neu 4 o Ran 3 neu adran 39 (gan gynnwys yn benodol fesurau a ddisgrifir mewn cod ymarfer o dan adran 41).

29. Trefniadau sydd gan ddarparwr ar waith i roi gwybod (yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) am gynnwys sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, a mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio â gofyniad o dan adran 66.

30. Mesurau a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir yn adran 75 (defnyddwyr sy'n blant a fu farw).

31. Y systemau a'r prosesau mae darparwr yn eu defnyddio i asesu'r risg o niwed i unigolion o gynnwys chwilio anghyfreithlon neu gynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant—

    a) pan fydd y gwasanaeth yn cael ei ddylunio neu ei ddatblygu i ddechrau,

    b) pan fydd unrhyw ddatblygiad neu ddiweddariad pellach i'r gwasanaeth yn cael ei ystyried, a

    c) pan fydd y gwasanaeth ar waith.

32. Y systemau a'r prosesau mae darparwr yn eu gweithredu—

    a) i gyfeirio defnyddwyr y gwasanaeth at wybodaeth am sut gallant ddiogelu eu hunain rhag niwed mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, ac

    b) atal neu gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth mewn perthynas â chynnwys chwilio anghyfreithlon a chynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant.

33. Cydweithrediad gan ddarparwr â'r llywodraeth, cyrff rheoleiddio neu gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith droseddol.

34. Mesurau a gymerir neu a ddefnyddir gan ddarparwr i ddarparu safon uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion.

35. Mesurau a gymerir neu a ddefnyddir gan ddarparwr i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r cyfryngau, a gwerthusiad o effeithiolrwydd mesurau o'r fath.

36. Unrhyw fesurau eraill a gymerir neu sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwr sy'n ymwneud â materion diogelwch ar-lein.

A2. Asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r effaith ar y Gymraeg

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A2.1 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: ailbennu rhywedd; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; hil; oed; priodas a phartneriaeth sifil; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.2 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('Deddf 1998') hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyladwy i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.[28]

A2.3 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A2.4 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn ystyried yr effeithiau posibl yn ehangach ac nid dim ond mewn perthynas â'r grwpiau hynny o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb (gweler paragraff 4.7 yn ein Canllawiau Asesu Effaith[29]).

- Yn benodol, mae adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu hefyd ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - i) pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
  - ii) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a
  - iii) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

[28] Ofcom, 2025. Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon ar gyfer Ofcom.
[29] Ofcom, 2023. Canllawiau asesu effaith.

A2.5 Rydym yn edrych ar yr effaith bosibl y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

A2.6 Felly, rydym wedi ystyried yn ofalus a fydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith benodol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn erbyn pobl o'r fath, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

A2.7 Fe wnaethom ystyried materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y fframwaith adrodd ar dryloywder ym mis Gorffennaf 2025. Nid oedd yr ymatebwyr wedi nodi unrhyw bryderon o bwys ynghylch effeithiau ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi sôn am bwysigrwydd deall sut mae systemau awtomataidd yn gweithredu ac yn cael eu defnyddio gan wasanaethau, ac roedd eraill wedi pwysleisio pwysigrwydd tryloywder mewn perthynas â diogelwch ar-lein a phrofiadau plant a phobl ifanc. Rydym wedi ystyried y pwyntiau hyn wrth ddatblygu ein dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder.

A2.8 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd y dull o ymdrin ag adroddiadau tryloywder yn sicrhau manteision i bobl ac i grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd y dull gweithredu'n cynhyrchu gofynion gwybodaeth bob blwyddyn, sy'n targedu materion diogelwch ar-lein allweddol ac yn ceisio cynhyrchu gwybodaeth am sut mae mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith i liniaru niwed sy'n effeithio'n benodol ar grwpiau penodol.

A2.9 Bydd ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder yn golygu bod diogelu defnyddwyr sy'n blant yn ofyniad gwybodaeth craidd a bod grŵmio yn ofyniad gwybodaeth thematig. Mae pwysigrwydd tryloywder mewn perthynas â diogelwch plant ac amddiffyn pobl ifanc ar-lein yn fater rydym yn credu sy'n berthnasol ac yn briodol i fynnu gwybodaeth flynyddol amdano, ar yr un pryd ag ystyried ei bod yn briodol ymchwilio'n ddwfn i grŵmio drwy ein gofynion gwybodaeth thematig eleni. Rydym yn nodi y gallai defnyddwyr iau fod yn fwy agored i niwed ar-lein ac rydym yn nodi bod y materion hyn yn cyd-fynd â dyletswyddau statudol Ofcom i ystyried bregusrwydd plant ac eraill y gallai fod angen gwarchodaeth ychwanegol arnynt.

A2.10 Ar ben hynny, bydd ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder yn cynhyrchu gofynion gwybodaeth am fentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau darparwyr gwasanaeth. Bydd yr wybodaeth hon o fudd i grwpiau ac i bobl benodol sy'n cael eu targedu'n anghymesur ar-lein, fel menywod a merched. Bydd yr wybodaeth yn datblygu ymwybyddiaeth o sut mae darparwyr yn cymryd camau i egluro ac i hyrwyddo dulliau gall defnyddwyr eu defnyddio i ddiogelu eu hunain rhag niwed a dod yn fwy ymwybodol o'r risgiau a allai dargedu grwpiau a phobl benodol ar-lein.

A2.11 Nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder yn debygol o gael effaith llawer mwy niweidiol ar bobl â nodweddion gwarchodedig nag ar eraill. Felly, rydym yn dod i'r casgliad dros dro bod effeithiau niweidiol sylweddol ar gydraddoldeb yn annhebygol.

Hawliau Dynol

A2.12 Mae'n anghyfreithiol i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).[30] Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10 ECHR) a'r hawl i breifatrwydd (Erthygl 8 ECHR) sy'n arbennig o berthnasol i swyddogaethau Ofcom o dan y Ddeddf. Wrth lunio ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder, rydym wedi dadansoddi sut gallai ein dull gweithredu effeithio ar yr hawliau hyn. Yn benodol, rydym wedi ystyried i ba raddau y gallai ein dull gweithredu effeithio ar ryddid mynegiant defnyddwyr, buddiannau preifatrwydd a chyfrinachedd darparwyr gwasanaeth, a hawliau preifatrwydd a diogelu data defnyddwyr.

A2.13 Mae ein dull gweithredu yn mynnu bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth benodol am fesurau a allai effeithio ar sut mae defnyddwyr yn arfer eu hawliau i ryddid mynegiant a chysylltiad, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â chymedroli cynnwys, amddiffyniadau i ddefnyddwyr sy'n blant a systemau argymell cynnwys. Drwy sicrhau bod gwybodaeth am y mesurau hyn ar gael i'r cyhoedd, dylai adroddiadau tryloywder helpu defnyddwyr i ddeall yn well sut mae gwasanaethau'n gweithredu a sut gall systemau a phrosesau darparwyr effeithio ar eu gallu i fynegi eu hunain, cael gafael ar gynnwys a rhyngweithio ag ef, a chysylltu ag eraill ar-lein. Dylai hefyd roi gwell dealltwriaeth i ddefnyddwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol o sut mae darparwyr yn ceisio cydbwyso diogelu defnyddwyr rhag niwed â diogelu rhyddid mynegiant a chysylltiad.

A2.14 Rydym hefyd wedi ystyried buddiannau darparwyr o ran cynnal cyfrinachedd gwybodaeth am eu gwasanaethau. Rydym yn cydnabod y gall rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen i adrodd ar dryloywder fod yn gyfrinachol, ac rydym wedi cydbwyso'r buddiannau hyn yn erbyn manteision cyhoeddi. Fel rhan o'r broses hysbysiadau drafft, bydd darparwyr yn cael cyfle i nodi pryderon am gyfrinachedd a chyflwyno sylwadau i Ofcom, y bydd Ofcom yn eu hystyried cyn llunio fersiwn terfynol y gofynion gwybodaeth. Pan fydd cyfiawnhad dros gyhoeddi, rydym o'r farn y gall mwy o dryloywder gefnogi gwelliannau yn safonau'r diwydiant a diogelwch ar-lein, gan helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

A2.15 Rydym hefyd wedi ystyried effaith ein dull gweithredu ar breifatrwydd a diogelu data. Yn benodol, rydym wedi ystyried a fyddai'n briodol mynnu bod data personol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r gofynion gwybodaeth. Rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai'n briodol mynnu bod data personol yn cael ei gyhoeddi, o ystyried yr effaith bosibl ar ddarparwyr ac ar ddefnyddwyr a'r ystyriaethau cysylltiedig o ran diogelu data. Felly, nid yw ein dull gweithredu yn mynnu bod data personol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r gofynion gwybodaeth hyn.

[30] Adran 6, Deddf Hawliau Dynol 1998.

Y Gymraeg

A2.16 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.[31] Yn unol â hynny, rydym wedi ystyried:

- effaith bosibl ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- effaith bosibl ein dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- sut byddai modd llunio ein cynigion er mwyn iddynt gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

A2.17 Rhaid arfer pwerau a dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â rheoleiddio diogelwch ar-lein a nodir yn y Ddeddf ac yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf 2003. Wrth lunio ein cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, lle bo hynny'n berthnasol ac i'r graddau y mae gennym ddisgresiwn i wneud hynny wrth arfer ein swyddogaethau, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A2.18 Roeddem wedi ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad a gafwyd mewn perthynas ag adrodd ar dryloywder. Ni chodwyd unrhyw faterion penodol ynghylch y Gymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, na hygyrchedd trefniadau adrodd tryloywder ar gyfer defnyddwyr Cymraeg eu hiaith. Efallai y bydd darparwyr am gyfieithu eu hadroddiadau i'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i gynulleidfaoedd Cymraeg perthnasol.

A2.19 O ystyried natur y cynigion, sy'n ymwneud â gosod gofynion gwybodaeth ar ddarparwyr gwasanaeth rheoleiddiedig, nid ydym o'r farn bod y cynigion yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg.

[31] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan. Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg, 2016. Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

A3. Gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a 2B

A3.1 Mae'r gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a 2B, a'r diffiniadau a ddefnyddir, wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 3 Gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a 2B.

A4. Gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 2A

A4.1 Mae'r gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 2A, a'r diffiniadau a ddefnyddir, wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 4 Gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau Categori 2A.

A5. Asesiad enghreifftiol o gost yr effaith ym mlwyddyn 1

A5.1 Rydym wedi cynnal asesiad enghreifftiol o'r costau uniongyrchol tebygol y gallai darparwyr gwasanaeth eu hwynebu o ganlyniad i gydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth yn y flwyddyn gyntaf ar sail y dull o ymdrin ag adrodd ar dryloywder a drafodir yn Adran 3. Er bod ein hasesiad effaith yn ymwneud â'n dull cyffredinol o ymdrin ag adrodd ar dryloywder, rydym wedi defnyddio'r asesiad enghreifftiol hwn i fesur graddfa debygol costau ein dull gweithredu fel sail i'r asesiad hwnnw.

A5.2 Mae'r adran hon yn nodi:

- Dull posibl o amcangyfrif costau uniongyrchol; a
- Canlyniadau ar y costau tebygol

Dull o amcangyfrif costau uniongyrchol

A5.3 Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddulliau posibl o amcangyfrif costau, ac rydym o'r farn mai dull sy'n nodi cwestiwn cynrychioliadol (h.y. cwestiwn sy'n cynrychioli baich y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn yr hysbysiadau) fyddai'n fwyaf priodol oherwydd gallai hyn roi syniad bras o raddfa'r costau.

A5.4 Fe wnaethom ddefnyddio arbenigedd mewnol i ddatblygu tybiaethau am yr amser a gymerir i ymateb i gwestiwn cynrychioliadol a'r staff tebygol sy'n ofynnol (gweler Tabl A5.1 isod). Ar gyfer cyfanswm y costau sy'n benodol i gwestiynau, gwnaethom luosi nifer disgwyliedig y cwestiynau (gan gynnwys is-gwestiynau) â chost ymateb i gwestiwn cynrychioliadol. Fe wnaethom amcangyfrif y costau i ddarparwyr gwasanaeth drwy gyfuno'r costau canolog a swm y costau sy'n benodol i'r cwestiwn.

Tabl A5.1: Yr amser a gymerir i gwblhau hysbysiad i ddarparwyr gwasanaeth

Gweithgareddau	Yr amser a gymerir mewn diwrnodau[32]
Tîm canolog – adolygu'r hysbysiadau, sefydlu llywodraethiant, uwch arweinwyr yn cadarnhau'r ymateb	5-10
Tîm prosiect – mapio gofynion, cynllunio'r gwaith o gasglu data, prosesu data, adolygiad mewnol ac ymateb i ymholiadau	10-15

A5.5 Bydd costau ymateb i'r hysbysiadau'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau sy'n amrywio ar draws darparwyr gwasanaeth ac mae'n anodd cynnwys rhai yn y dadansoddiad. Er enghraifft, bydd y costau'n dibynnu ar drefniant mewnol y darparwyr gwasanaeth, pa ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu ac ym mha fformat y cesglir eu gwybodaeth. I roi cyfrif

[32] Rydym ond wedi gwneud tybiaethau am nifer ac ystod yr amser sydd ei angen ar gyfer pob cwestiwn, yn hytrach na nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn. Dylai hyn roi cyfrif am wahaniaethau yn nifer y gweithwyr dan sylw ac mae hefyd yn caniatáu i wahanol weithwyr weithio ar wahanol agweddau ar yr hysbysiadau ar yr un pryd.

am hyn, rydym o'r farn ei bod yn briodol mabwysiadu dull gweithredu sy'n goramcangyfrif y costau. Byddai hyn yn caniatáu i ni adlewyrchu'r costau cysylltiedig yn well yn ein dadansoddiad ac yn rhoi sicrwydd pellach i ni fod yr hysbysiadau'n gymesur. Rydym wedi gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Trin pob is-gwestiwn (waeth beth fo'i faint a'i natur) fel ei gwestiwn llawn ei hun;
- Amcangyfrif costau pob cwestiwn, ond efallai mai dim ond os yw'r diffiniad hwnnw'n berthnasol iddyn nhw y bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth ateb rhai cwestiynau;
- Trin cwestiynau ie / na syml a chwestiynau tacsonomeg yr un fath â chwestiynau ansoddol a meintiol mwy cymhleth; a
- Peidio â rhoi cyfrif am y ffaith bod rhai darparwyr gwasanaeth eisoes yn casglu ac yn adrodd ar yr wybodaeth hon.

A5.6 Byddai'r dull hwn yn golygu bod costau rhai cwestiynau'n cael eu goramcangyfrif a rhai'n cael eu tanamcangyfrif, a allai arwain at gydbwyso'r mater hwn i ryw raddau.[33]

Tybiaethau eraill am gostau

Lefel pris

A5.7 Rydym wedi defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion[34] i ddatblygu amcangyfrifon ar gyfer costau'r llafur sydd ei angen i gydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth. Mae'r holl amcangyfrifon meintiol o gostau neu fuddion yn cael eu darparu ym mhrisiau 2026, oni nodir yn wahanol.

Costau llafur

A5.8 Pan fo'n briodol, mae ein dull cyffredinol o amcangyfrif costau llafur yn defnyddio'r un tybiaethau i raddau helaeth ag y gwnaethom eu defnyddio yn Natganiad Ebrill 2025 ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ('Datganiad Ebrill 2025') ac yn y Datganiad Mesurau Diogelwch Ychwanegol ('Datganiad Tachwedd 2026).[35] Rydym wedi gwneud hyn i sicrhau cysondeb methodolegol ar draws ein cyhoeddiadau.

A5.9 Er mwyn datblygu ein hamcangyfrifon ar gyfer costau llafur, rydym wedi defnyddio'r enillion canolrifol gros ar gyfer y galwedigaethau sy'n cyfateb i godau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol[36] a restrir isod. Mae'r galwedigaethau hyn wedi cael eu dewis ar y

---

[33] Nodwn fod y DSA wedi cynnwys amcangyfrifon o 0.1 i 2 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ynghyd â chostau casglu data datblygu untro yn ei asesiad effaith o'i ofynion adrodd ar dryloywder ond tybiodd fod y rhain wedi'u cynnwys wrth ddatblygu systemau. Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyried y costau i gasglu'r data a dull gweithredu sy'n goramcangyfrif y costau tebygol gan y gallai hyn ddarparu rhagor o gefnogaeth bod ein dull gweithredu'n debygol o fod yn gymesur ym mlwyddyn 1. Gweler yr asesiad effaith rhan 1 tudalen 54 Asesiad o effaith y Ddeddf Gwasanaethau Digidol | Siapio dyfodol digidol Ewrop.

[34] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ('ONS'), 2026. Enillion ac oriau a weithiwyd, galwedigaeth yn ôl SOC pedwar digid: ASHE Tabl 14 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data dros dro yw hwn adeg ysgrifennu. Roeddem wedi defnyddio fersiynau cynharach o'r un set data i amcangyfrif costau llafur, gan gynnwys data ASHE 2023 yn Ebrill 2025 Datganiad ar Ddiogelu Plant rhag Niwed ac wedyn fe wnaethon ni ddefnyddio data ASHE 2026 yn y Datganiad Mesurau Diogelwch Ychwanegol.

[35] https://www.ofcom.org.uk/online-safety/illegal-and-harmful-content/online-safety-additional-safety-measures.

[36] Rydym yn defnyddio Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020 (SOC 2020), sef y diweddariad diweddaraf yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol - SOC 2020 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

sail eu bod yn cyfateb orau i'r categorïau sgiliau a swyddi rydym yn credu a fyddai'n debygol o fod yn rhan o'r gwaith o gydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth.

- **Galwedigaethau Proffesiynol Eraill (SOC 2)** sy'n berthnasol i amrywiaeth o broffesiynau a gyflogir mewn amrywiol wasanaethau ar-lein ac y gallai fod angen iddynt weithredu mesurau'r cod. Gallai hyn fod yn weithwyr cyfreithiol, gweithrediadau, rheolwyr cynnyrch ac ati.
- **Gweinyddwyr cronfeydd data a thechnegwyr cynnwys gwe (SOC 3133)**[37] i amcangyfrif cost 'prosesu data'.

A5.10 Ar gyfer pob galwedigaeth, rydym yn defnyddio ystod cyflog i adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch y cyflogau sy'n wynebu gwasanaethau wedi'u categoreiddio yn eu marchnadoedd gwahanol, yn ogystal â'r lefelau gwahanol o gyfrifoldeb ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen.

A5.11 Fel rheoleiddiwr yn y DU, rydym o'r farn ei bod yn briodol defnyddio enillion y DU ar gyfer ein hamcangyfrifon o gostau llafur. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod darparwyr gwasanaeth o fewn y cwmpas yn fentrau byd-eang ac, yn ymarferol, y gall cyfraddau cyflog canolrifol y DU fod yn wahanol i'r cyfraddau cyflog a geir mewn gwahanol farchnadoedd. Bwriad ein hystod cyflog oedd adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch y costau llafur a wynebir gan wasanaethau o fewn y cwmpas.

- Mae ffin isaf yr ystod honno'n cyfateb i enillion amser llawn gros canolrifol ar gyfer y cod SOC cyfatebol yn nata ASHE 2026 (yr ydym wedi'i addasu ymhellach drwy gymhwyso cynnydd o 22% i gyfrif am gostau ychwanegol fel costau llafur nad ydynt yn gyflogau, e.e. cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr). [38]
- Mae'r ffin uchaf yn cyfateb i ddyblu'r enillion amser llawn gros canolrifol, er mwyn rhoi cyfrif am y ffaith bod cyfraddau cyflogau canolrifol yn y DU yn gallu bod yn wahanol i'r cyflogau go iawn sy'n cael eu talu gan rai darparwyr gwasanaeth. Gallai hyn fod yn arbennig o wir i ddarparwyr gwasanaeth mwy yn yr Unol Daleithiau, lle gallai lefelau cyflog fod yn uwch, ac ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio gan eu bod yn debygol o gynnig cyflogau cystadleuol iawn. Ar ben hynny, gall y cyflogau hefyd fod yn uwch o lawer ar gyfer rhai rolau arbenigol. Mae ein hystod cyflog yn ddigon eang i roi cyfrif am hyn, ond rydym yn cydnabod y gallai dangynrychioli'r costau llafur a wynebir gan rai gwasanaethau o fewn y cwmpas.

A5.12 Ar y llaw arall, gall darparwyr gwasanaeth roi rhywfaint o waith perthnasol ar gontract allanol i leoliadau lle mae'r cyflog cyfartalog yn is na'r DU, a allai leihau costau. I'r graddau y mae hyn yn wir, efallai fod ein hystod cyflog yn gor-ddweud y costau.

A5.13 Mae Tabl A5.2 yn crynhoi costau llafur pob un o'r galwedigaethau a restrir.

Tabl A5.2: Amcangyfrifon Isel ac Uchel o gostau Llafur

Swydd	Isel	Uchel

[37] Mae'r cod SOC 2020 pedwar digid hwn (cod grŵp uned 3133) yn cynnwys galwedigaethau fel cynnwys, sgwrsio, gwe a chymedrolwyr gwefannau yn ogystal â galwedigaethau eraill fel gweinyddwyr cronfeydd data a thechnegwyr cynnwys gwe.

[38] Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell rhannu 'cyfraniadau cymdeithasol y cyflogwr (D.12)' â 'thâl a chyflogau (D.11)' er mwyn cael y cynnydd. Cyhoeddir y naill gyfres a'r llall fel rhan o Gyfres fel rhan o Gyfrifon Cenedlaethol blynyddol y DU: Cyfres amser Llyfr Glas. Maent yn rhoi amcangyfrifon ar gyfer yr economi gyfan o D.11 a D.12 bob blwyddyn. Adeg ysgrifennu, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn berthnasol i 2024.

	Amcangyfrif o'r gost llafur flynyddol	
Galwedigaethau proffesiynol eraill	£57,386	£114,772
Prosesu data	£47,077	£94,155
	Amcangyfrif o'r gost llafur ddyddiol	
Galwedigaethau proffesiynol eraill	£252	£504
Prosesu data	£207	£413

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2026), Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 22%. Mae'r cyfrifiadau'n cael eu gwneud ar sail y cyflog gros canolrifol ac yna'n cael eu codi 22%.

Nodiadau: Mae'r ffigurau'n seiliedig ar enillion blynyddol, ac rydym wedi cyfrifo'r amcangyfrifon dyddiol.[39]

A5.14 Pan fydd ein hamcangyfrifon o gostau yn cyfrif am fewnbwn gan uwch reolwyr, rydym wedi defnyddio amcangyfrifon o gyflogau o ffynonellau eraill. Mewn cyhoeddiadau blaenorol, roeddem wedi amcangyfrif bod cost llafur flynyddol uwch arweinwyr yn £183,000.[40] Mae'r amcangyfrifon hyn wedi cael eu diweddaru gan ddefnyddio twf diweddar mewn enillion economi gyfan. Yr ystod costau llafur blynyddol diwygiedig yw £212,000.[41]

A5.15 Wrth amcangyfrif y costau llafur i gydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth, rydym yn lluosi ein tybiaethau cyflog â thybiaethau ynghylch pa mor hir rydym yn disgwyl y byddai angen i ddarparwyr gwblhau pob tasg berthnasol.

A5.16 Felly, rydym yn cael amrywiaeth o amcangyfrifon ar gyfer costau llafur lle mae'r ffin isaf yn cyfuno'r cyflog 'isel' ar gyfer pob galwedigaeth berthnasol (fel sy'n cael ei grynhoi yn Nhabl A5.2 uchod) â ffin isaf yr amcangyfrif o nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau tasg. Mae'r ffin uchaf yn cyfuno'r cyflog 'uchel' ar gyfer pob galwedigaeth berthnasol (fel sy'n cael ei grynhoi yn Nhabl A5.1 uchod) â ffin uchaf yr amcangyfrif o nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau tasg.

Costau hysbysiadau tryloywder.

A5.17 Dangosir ein hamcangyfrifon ar gyfer y costau tebygol yn Nhabl A5.3 isod. [42]

---

[39] Daw'r cyflogau blynyddol o ddogfen y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2026 Enillion o'r oriau a weithiwyd, galwedigaeth yn ôl cod SOC pedwar digid: ASHE Tabl 14 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tabl 14.7a Tâl blynyddol gros ar gyfer swydd pob cyflogai, amcangyfrifon dros dro 2026. Daw'r cyflogau dyddiol drwy rannu'r cyflogau blynyddol â nifer y diwrnodau gwaith mewn blwyddyn. Rydym yn tybio bod 228 o ddiwrnodau gwaith mewn blwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn tybio bod pobl yn gweithio 5 diwrnod yr wythnos a bod 8 gŵyl banc ac ar gyfartaledd mae pobl yn cymryd 25 diwrnod ychwanegol o wyliau'r flwyddyn.

[40] Mae hyn yn seiliedig ar dybiaethau syml rydym wedi'u gwneud o gyflog o £150,000 i uwch arweinydd, sydd wedyn yn cael y cynnydd o 22% ar gyfer costau llafur nad ydynt yn gyflogau. Gweler Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein, Atodiad 5:Tybiaethau ynghylch costau a dadansoddiad pellach o gostau a buddion.

[41] Gan ddefnyddio dogfen y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2026. AWE: Whole Economy Year on Year Three Month Average Growth (%): Seasonally Adjusted Total Pay Excluding Arrears. rydym wedi diweddaru'r ffigurau hyn i gyfrif am dwf cronnus ers 2023.

[42] Nodwn fod Llywodraeth y DU wedi amcangyfrif bod costau'r gofynion tryloywder o dan y Ddeddf tua £45,000 y flwyddyn ar gyfer pob darparwr gwasanaeth (roedd hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon gan NetzDG yr Almaen). Cawn ar ddeall nad yw'r amcangyfrif hwn yn berthnasol i'n rôl i sicrhau bod yr hysbysiadau'n gymesur. Gweler Asesiad o'r effaith ar ddeddfiad y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, paragraff 203.

Tabl A5.3: Costau dangosol i ddarparwyr gwasanaeth ar draws pob categori

Categori	Costau
Cat 1	£390k - £1.2M
Cat 2A	£220k - £660K
Cat 2B	£50k - £1M[43]

A5.18 Fel y trafodwyd uchod, rydym wedi defnyddio dull sy'n goramcangyfrif y costau tebygol, ac rydym yn nodi bod nifer o ffactorau a allai ddangos bod y costau'n debygol o fod yn is:

- Rydym wedi dylunio'r cwestiynau i leihau'r baich ar ddarparwyr gwasanaeth. Er enghraifft, ar gyfer rhai cwestiynau meintiol yn yr adran cymedroli cynnwys, rydym wedi caniatáu i ddarparwyr gwasanaeth gyfrifo metrigau gan ddefnyddio eu dull samplu eu hunain neu ddangosyddion procsi, a fyddai'n lleihau'r baich ar wasanaethau o amcangyfrif y metrigau perthnasol.
- Rydym yn deall bod y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn casglu ac yn cyhoeddi rhywfaint o'r wybodaeth rydym yn gofyn amdani yn yr hysbysiadau tryloywder (gweler Atodiad 6) ac mae'r gorgyffwrdd hwn yn uwch i ddarparwyr Categori 1 sydd hefyd yn cael y nifer fwyaf o gwestiynau. Gallai hyn felly ddangos y bydd y costau'n debygol o fod yn is oherwydd bydd gan y darparwyr gwasanaeth hyn brosesau a systemau ar waith yn barod i ymateb i'r hysbysiadau.
- Yn yr un modd, byddai gan rai o'r darparwyr gwasanaeth systemau / prosesau ar waith hefyd i ymateb i hysbysiadau tryloywder mewn awdurdodaethau eraill ac felly gallent wynebu costau is oherwydd mai dim ond yr wybodaeth am y DU y byddai angen iddynt ei darparu a/neu addasu eu prosesau i wneud hynny.
- Ar ben hynny, byddai rhai gofynion o dan y Ddeddf yn golygu y dylai rhanddeiliaid eisoes fod â phrosesau ar waith i gasglu ac i fonitro mathau penodol o wybodaeth. Er enghraifft, gall gofynion tryloywder orgyffwrdd ag asesiadau risg sy'n cael eu defnyddio i ddeall ac i gyfrannu at eu dewisiadau eu hunain i reoli risg ar eu gwasanaeth. Efallai y bydd asesiadau risg yn golygu bod gofyn iddynt gasglu tystiolaeth am effeithiolrwydd mesurau lliniaru, yn enwedig mewn perthynas â chymedroli cynnwys, adrodd a chwynion, a sicrwydd oedran. Efallai y bydd gorgyffwrdd hefyd rhwng y dacsonomeg a ddefnyddir i adrodd ar dryloywder ac asesiadau risg, sy'n arwain ymhellach at gostau is.

[43] Mae gwasanaethau Cat 2B yn cynnwys amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth, gyda gwahanol niferoedd o gwestiynau.

A6. Tystiolaeth

A6.1 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Ofcom fynnu gwybodaeth am amrywiaeth o faterion sydd wedi'u nodi yn Atodlen 8 i'r Ddeddf, gan gynnwys gwybodaeth am systemau a phrosesau, dyluniad a gweithrediadau gwasanaeth. Un o nodau allweddol hysbysiadau ac adroddiadau tryloywder yw gwella dealltwriaeth defnyddwyr o sut mae darparwyr gwasanaeth wedi'u categoreiddio yn asesu ac yn lliniaru risgiau diogelwch ar-lein.

A6.2 Un ystyriaeth weithredol allweddol ar gyfer y drefn tryloywder yw sicrhau bod gofynion gwybodaeth yn gymesur, yn briodol ac yn berthnasol, gan gynnwys mewn perthynas ag argaeledd a natur yr wybodaeth berthnasol sydd gan wasanaethau. Mae ein dadansoddiad o ddatgeliadau presennol yn dangos bod llawer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn casglu ac yn cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth sy'n gorgyffwrdd â'r wybodaeth rydym yn disgwyl gofyn amdani mewn hysbysiadau tryloywder, gyda'r gorgyffwrdd hwn yn uwch ar gyfer darparwyr gwasanaeth Categori 1. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddatgelir yn wirfoddol, i reoleiddwyr eraill, neu drwy brosesau ymgyfreitha a gorfodi. Mae'n bwysig bod Ofcom yn deall natur a maint y datgeliadau hyn er mwyn helpu i lywio ein dull o bennu gofynion gwybodaeth mewn ffordd sy'n glir, wedi'i thargedu ac yn ymwybodol o arferion presennol. Ar yr un pryd, nid yw bodolaeth datgeliadau mewn mannau eraill yn cyfyngu ar allu Ofcom i ofyn am wybodaeth sy'n benodol i'r DU ac sydd â therfyn amser lle bo hynny'n briodol.

A6.3 I gefnogi ein rôl o ran adrodd ar dryloywder, fe wnaethom gynnal ymchwil a dadansoddiad i'n helpu i nodi'r gofynion gwybodaeth a fyddai'n debygol o fod angen gwybodaeth newydd gan wasanaethau, yn hytrach na gwybodaeth maent eisoes yn ei datgelu. Roedd hyn yn ystyried adroddiadau tryloywder gwirfoddol gwasanaethau a gwybodaeth a ddarparwyd i reoleiddwyr eraill, yn ogystal â pha wybodaeth mae gwasanaethau wedi'u categoreiddio eisoes yn ei datgelu drwy ymgyfreitha mewn perthynas â detholiad o bynciau tryloywder blaenoriaeth uchel.

A6.4 Prif bwrpas yr ymchwil a'r dadansoddiad hwn oedd cefnogi Ofcom i ddatblygu gofynion gwybodaeth wedi'u targedu'n dda ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, drwy roi cipolwg ar a yw darparwyr gwasanaeth yn dal, yn cynhyrchu ac yn datgelu mathau tebyg o wybodaeth, a sut maent yn gwneud hynny.

A6.5 Yn ail, roeddem wedi ceisio nodi meysydd lle mae'n ymddangos bod darparwyr gwasanaeth wedi gofyn am wybodaeth gymharol gyfyngedig neu wedi datgelu gwybodaeth gymharol gyfyngedig hyd yma, gan dynnu sylw at feysydd posibl lle gallai Ofcom ychwanegu gwerth rheoleiddio yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mharagraffau A6.7-A6.12 isod.

A6.6 Ar ben hynny, ym mis Ebrill 2026, fe wnaethom gynnal cyfres o drafodaethau bwrdd crwn ar adrodd ar dryloywder. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys rhanddeiliaid o sefydliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sydd ag arbenigedd pwnc perthnasol i helpu i lywio ein dull gweithredu, fel pa wybodaeth y dylai darparwyr gwasanaeth ar-lein ei chyhoeddi. Ymysg pethau eraill, roedd y trafodaethau'n edrych ar sut mae rhanddeiliaid yn ymgysylltu ag adroddiadau tryloywder presennol ar hyn o bryd, beth sy'n eu gwneud yn ddefnyddiol yn ymarferol, a sut maent yn eu defnyddio i lywio eu gwaith. Fe wnaethom hefyd ofyn am farn ar y mathau o wybodaeth am risgiau diogelwch ar-lein a dyluniad gwasanaethau a fyddai fwyaf buddiol i ddefnyddwyr, yn ogystal â'r wybodaeth a allai eu helpu i wneud dewisiadau mwy diogel a gwybodus ar-lein.

Ymchwil a dadansoddiad

A6.7 Ym mis Gorffennaf a mis Awst 2026, adolygodd Ofcom yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan wasanaethau wedi'u categoreiddio sy'n cyhoeddi adroddiadau tryloywder a chanfu nad yw 8 gwasanaeth yn cyhoeddi unrhyw adroddiadau tryloywder, neu rai cyfyngedig iawn.[44] Fe wnaethom adolygu adroddiadau a gyhoeddwyd yn wirfoddol a'r rheini sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Digidol (DSA) yn yr UE (29 adroddiad), eSafety yn Awstralia, ac Awdurdod Datblygu Cyfryngau Infocomm (IMDA) yn Singapôr (5 adroddiad). Fe wnaethom gymharu'r cwestiynau a ddrafftiwyd ym mis Gorffennaf 2026 i'w cynnwys mewn hysbysiadau tryloywder i wasanaethau wedi'u categoreiddio â'r cwestiynau hynny a ofynnwyd mewn adroddiadau presennol. Fe wnaethom wedyn gofnodi a oedd pob un o gwestiynau Ofcom eisoes wedi cael ei ateb gan wasanaeth, a lle'r oedd hynny wedi digwydd, pa mor agos oedd y cwestiwn presennol yn cyfateb i'n un ni.

A6.8 Gwnaethom gynnal y dadansoddiad hwn am ddau reswm. Yn gyntaf, deall faint o waith ychwanegol y byddai angen i wasanaethau ei wneud i ateb ein cwestiynau tryloywder, gan helpu i gyfrannu at ofynion cymesuredd. Yn ail, deall i ba raddau y bydd ein cwestiynau arfaethedig yn cyfrannu at ddatgelu mathau newydd o wybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys sut mae hyn yn cymharu ag awdurdodaethau rhyngwladol.

A6.9 Gwelsom fod gwasanaethau, ar gyfartaledd, wedi ateb tua chwarter y cwestiynau'n flaenorol, sy'n debyg i gwestiynau Ofcom. Gwasanaethau Categori 1 fel Facebook, Instagram a Snapchat sydd fwyaf tebygol o fod wedi ateb cwestiynau tebyg mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Roedd y 5 gwasanaeth uchaf sydd wedi ateb y rhan fwyaf o gwestiynau wedi ateb 52% o'r cwestiynau rydym ni'n bwriadu eu cynnwys yn yr Hysbysiadau ar gyfartaledd, o'i gymharu â 5% ar gyfer y 5 gwasanaeth isaf sy'n cyhoeddi adroddiadau tryloywder. Gwelsom hefyd fod gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod wedi ateb cwestiynau o'r blaen na gwasanaethau negeseuon neu farchnad (cyfryngau cymdeithasol: 41%, negeseuon: 24%, marchnad: 14%).

A6.10 O'r pedwar categori adrodd a ddadansoddwyd gennym, adroddiadau DSA oedd y mwyaf tebygol o gynnwys cwestiynau sy'n debyg i'r cwestiwn mae Ofcom yn bwriadu ei ofyn i wasanaethau, a'r IMDA oedd y lleiaf tebygol gan ei fod yn cynnwys llai o wasanaethau. Nid yw gwasanaethau wedi cyhoeddi data sy'n benodol i'r DU o'r blaen mewn 99% o'r achosion ac anaml y maent wedi cyhoeddi gwybodaeth sy'n benodol i unrhyw un wlad.

A6.11 I ategu'r adolygiad hwn, buom hefyd yn archwilio gwybodaeth a wnaed yn gyhoeddus drwy ymgyfreitha ac achosion llys diweddar a pharhaus perthnasol yn yr Unol Daleithiau sy'n cynnwys gwasanaethau Categori 1 a 2A. Gan ddefnyddio dadansoddiad arbenigol a ddarparwyd gan ymgynghorydd allanol, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddatgeliadau sy'n ymwneud â systemau argymell, diogelu defnyddwyr sy'n blant a grŵmio, ac yn ystyried i ba raddau roedd yr wybodaeth a ddatgelwyd drwy'r achosion hyn yn cyd-fynd â gofynion gwybodaeth tryloywder drafft Ofcom.

A6.12 Gyda'i gilydd, roedd y ffynonellau gwahanol hyn yn rhoi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr ynghylch a oes gan ddarparwyr yr wybodaeth rydym yn cynnig gofyn amdani drwy hysbysiadau tryloywder, i ba raddau mae gwybodaeth debyg eisoes yn cael ei datgelu, a lle gallai gofynion Ofcom gynhyrchu gwybodaeth newydd i ddefnyddwyr ac i randdeiliaid eraill. Roedd y dadansoddiad yn helpu i lywio ein proses teilwra hysbysiadau tryloywder ac

[44] Quora, Autotrader, Genius, Mumsnet, Steam, xHamster, Bing, a Facebook Deep Dive.

yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gofynion gwybodaeth sydd wedi'u targedu'n dda ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

A7. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

A7.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch barn a'ch sylwadau am y materion a godwyd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 20 Ionawr 2027.

A7.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb yma. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A7.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i OS-Transparency@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 20 Ionawr 2027.

A7.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i uwchlwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A7.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A7.6 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A7.7 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A7.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys ateb uniongyrchol i'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiwn wedi'i restru yn adran 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A7.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i OS-Transparency@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

A7.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A7.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A7.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A7.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A7.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

Y camau nesaf

A7.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad gyda'n hasesiad terfynol o'r effaith

A7.16 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

Prosesau ymgynghori Ofcom

A7.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 8.

A7.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A7.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A8. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn dweud yn glir gyda phwy rydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.